

Gwobr BAFTA Cymru i'r fro



Llongyfarchiadau mawr i ddwy o'r fro - Erin Gwilym ac Angharad Elen - ar eu llwyddiant diweddar yn noson wobrwyo BAFTA Cymru yng Nghaerdydd.

Mae cyfres newydd o 'Deian a Loli' wedi ail-ddechrau ar 25ain o Hydref, bythefnos wedi i griw cynhyrchu Cwmni Da gael llwyddiant yng ngwobrwyon Bafta Cymru. Cipiodd 'Deian a Loli' y wobr am y Rhaglen Blant Orau.

Mae'r ail gyfres newydd, sy'n cael ei chynhyrchu gan Gwmni Da yng Nghaernarfon, newydd orffen ffilmio, a chafwyd premiere o ddwy bennod yn Pontio, Bangor, ar nos Iau, 19 Hydref, gyda phob un o'r 600 tocyn wedi diflannu o fewn ychydig oriau. Roedd Heno yn darlledu yn fyw o'r premiere ar y noson.

A daeth newyddion da i ddilynwyr y gyfres o ddeall y bydd pennod hir arbennig yn cael ei darlledu ar Nos Galan - 'Deian a Loli a'r Peiriant Amser' - fydd yn gweld Deian a Loli yn wynebu problem fwyaf eu bywyd... pan mae eu hud nhw'n rhoi'r gorau i weithio!

Erin Gwilym o Lanrug a Moi Hallam o'r Felinheli sy'n actio Deian a Loli, a chynhyrchydd y gyfres ydi Angharad Elen, yn wreiddiol o Landwrog ond sydd erbyn hyn yn byw ar Ffordd Crawia, rhwng Llanrug a Bethel.



RHIF 459
Tachwedd 2017

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Gwyn Parri, Cynefin, Deiniolen.

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

GOLYGYDD YR IFANC
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Sw'n yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

TREFNYDD DOSBARTHU
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug.
01286 673838

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl,
Bethel. (01248) 670115

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Eifion Roberts,
Sw'n-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Katie Williams, Ty'n
Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2017

Rhifyn Rhagfyr	Copi i law 12-Tachwedd	Bwndelu 24-Tachwedd	Ble Caeathro
Nadolig/Ionawr	03-Rhagfyr	15-Rhagfyr	Llanrug

LLYTHYRAU

Annw'l Olygydd

Canw Llyn Llydaw: rhifyn mis Hydref

Bu imi gofio fod yma lythyr, o eiddo Jody Deacon, Curadur Cynorthwyol Amgueddfa Genedlaethol Cymru, a ddanfonwyd ataf 6ed mis Mawrth (2012) sy'n d'eud i brawf radio-carbwn ddatgelu bod y canw dan sylw'n dyddio o'r cyfnod hanesyddol, a berthyn i ddiwedd y Canol Oesoedd. Felly, y mae'r ddamcaniaeth bod y canw'n perthyn i grannog wedi'i chwalu'n jibidires! Fodd bynnag, pam cadw cwch yno o gwbl? Ie! Ynte! Sgotwyr o blith ni'r Cymry! A dydy pawb, fel y gwyddoch chi, heb fod yn hoff o wlychu'i dra'd, (pig, mi roeddwn am ddeud, ond tawelaf!)

Cafwyd ar wybod hefyd fod y sawl a fu yng ngofal y canw, a hynny'n y flwyddyn 1856, ac wedi hynny, sef Dr. Griffith Griffiths, wedi trosglwyddo'r gwrthrych i'w fab, sef Mervyn Griffith Griffiths, a bu iddo yntau'n y flwyddyn 1927, da iawn fo, rhoi'r canw'n rhodd i'r Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd.

Y tro nesaf, yng Nghaerdydd, cofiwch alw draw i'w gweld, gan rag-rybuddio'r Amgueddfa o'ch bwriad, a hynny mewn da bryd. Y mae canw Llyn Llydaw wedi'i storio'n Adran Archaeoleg ac Niwmistmteg Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Dafydd Guto

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan
Lywodraeth Cymru

£20: Ronnie a Doris Evans, Gwynfryn, 4 Ffordd Glanffynnon, Llanrug; Er cof am Gwynfor Jones, 19 Stryd Fawr, Llanberis; Geraint a theulu Careb, Penisarwaun er cof am Avril.

£10: Maldwyn ac Ella, gynt o Lllys Myfyr, 1 Bron y Waun Terrace, Penisarwaun.

£5: Beti Roberts, Rhydfadog, Deiniolen; Er cof am Mrs Sally Roberts, Lorne House, Llanberis; Cissie a Jenny Gorlan, Deiniolen.

Pryder am Ddau Wasanaeth Gwerthfawr

Mae'n hysbys y dyddiau hyn fod Prifysgol Bangor yn ystyried nifer o doriadau ariannol mewn ymgais i gael dau ben llinyn ynghyd. Daeth i sylw Goriad, papur bro agos iawn atom, y gallai'r toriadau gael effaith ar ddwy uned sydd wedi rhoi gwasanaeth gwiw dros flynyddoedd lawer, sef yr uned argraffu a'r uned rwymo llyfrau.

Deallwn fod nifer o ddewisiadau'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gan 'Fwrdd Cynaliadwyedd Ariannol', a fydd yn y man yn cyflwyno argymhellion i Gyngor y Brifysgol. Cadeirir y Bwrdd hwn gan yr Is-Ganghellor, yr Athro John Hughes, gyda'i aelodaeth yn cynnwys 'y Dirprwy i'r Is-ganghellor, y Dirprwy Is-Gangellorion, y Cyfarwyddwr Cynllunio a Llywodraethu, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Cyfarwyddwr Marchnata.' Mae cau'r uned argraffu yn un o'r dewisiadau ger bron, ond fe'n sicrhau 'nad oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud eto i gau'r Argraffdy'.

Mae'r uned rwymo hyd yma'n dal ar agor ond gyda staff o un lle'r arferai fod tri neu bedwar.

Meddai un cyn-aelod o staff Coleg y Brifysgol: 'Siomedig iawn yw deall fod yr awdurdodau hyd yn oed yn ystyried dwyn i ben y ddau wasanaeth hyn a fu mor wasanaethgar i fyfyrwyr a staff ac a fu'n foddion i feithrin a chyflogi crefftwyr yn yr ardal. Anodd yw credu y bydd arbedion ariannol yn y pen-draw os bydd raid talu i gyrff o'r tu allan am y ddau wasanaeth.'

'Cwestiwn teg i'w ofyn,' meddai ymhellach, 'yw er mwyn pa beth y bydd y toriadau hyn os gwneir hwy? Pa ddarpariadau eraill o fewn y Brifysgol a ystyrir yn bwysicach? Y rhai ohonom sydd am weld parhad y ddau wasanaeth gwerthfawr hyn, dylem fynegi'n barn rhag blaen drwy ysgrifennu at yr is-Ganghellor neu'r Cofrestrydd.'

Diffyg gwybodaeth?

Ar ddydd Mawrth, 3ydd o Hydref, ymddangosodd llun ac erthygl fer am dim Falcon Force yn y Daily Post. Roedd y Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet dros Addysg, Cyngor Gwynedd yn cael ei ddyfynnu (ac fe'i cyhoeddir yn Saesneg fel yr ymddangosodd): "We wish them all the very best in Malaysia." Ac meddai'r Daily Post: "...they will compete against 50 other teams from around the world.... you can follow the team's progress on Twitter." Roedd yn swnio fel pe bai'r gystadleuaeth ar fin cychwyn.

Ond dymuniadau da yn cael eu cyhoeddi braidd yn hwyr! Roedd y tim wedi cyrraedd yn ôl o Malaysia y noson cynt, a'r gystadleuaeth ei hun wedi cyrraedd ei phen-llanw wythnos ynghynt, ac wedi cychwyn bron i bythefnos ynghynt.

Ai Cyngor Gwynedd oedd yn hwyr yn anfon datganiad i'r Wasg neu a oedd bai ar y Daily Post yn ei gyhoeddi mor hwyr? Dim ond gofyn?

(Mae hanes y daith ar dudalen 4)

Yn ystod y mis aeth heibio

- 92% yn Kurdistan yn pleidleisio mewn refferendwm o blaid gadael Irac, ond yn cael ei feirniadu o fod yn ‘anghyfreithlon’. Prin fu’r sylw a roddwyd ar y cyfryngau newyddion i’r canlyniad ond mae’n ymddangos y gall gwrthdaro milwrol ddeillio o’r digwyddiad.
- 90% yn Catalunya yn pleidleisio mewn refferendwm o blaid gadael Sbaen, ond yn cael ei gyhuddo o fod yn ‘anghyfreithlon’. Prin fu’r sylw a roddwyd ar y prif gyfryngau newyddion i’r modd y ceisiodd Sbaen atal y refferendwm, ond roedd y cyfryngau cymdeithasol yn frith o luniau yn dangos yr heddlu gwladwriaethol yn pastynnu pleidleiswyr, yn atal mynediad i ganolfannau pleidleisio, ac yn difrodi blychau pleidleisio. Y syndod mwyaf oedd diffyg beirniadaeth gan weddill gwledydd Ewrop ar y defnydd o’r fath ddulliau, gan honni nad oeddent am wneud sylw ar ‘fater mewnol’.
- Cyngor Gwynedd yn datgan eu bod yn cysidro dirwyo trethdalwyr am roi eu biniau sbwriel ac ail-gylchu allan ar y stryd ar y dyddiadau anghywir.

- Mudiadau a chymdeithasau cadwriaethol yn hynod feirniadol o Lywodraeth Cymru am gwtogi’n sylweddol yr arian a glustnodwyd yn y gyllideb i wasanaethau amgylcheddol.
- a’r gyllideb honno yn cwtogi unwaith eto ar yr arian a glustnodwyd i gynghorau lleol, er mai 0.1% yn llai a gaiff Gwynedd. Ond peidied a beio Llywodraeth Cymru am bopeth: rhaid cofio mai Llywodraeth Llundain sy’n penderfynu faint o arian sydd ar gael i Gymru ei ddosrannu.
- Yr hen bunt gron yn diflannu o gylchrediad, ond y Swyddfa Bost a’r banciau yn datgan eu bod yn barod i’w derbyn hyd o leiaf ddiwedd y mis. Fe’i lanswyd ym mis Ebrill 1983 yn lle’r hen bapur punt, ac ers hynny mae dros 2 biliwn ohonynt wedi eu bathu.
- Hyrddiodd Storm Ophelia ei chynddaredd ar draws y fro wrth deithio tua’r gogledd. Yn ei sgil cafwyd arogl llosgi wedi ei gario o dannau yn Iberia, a haul yn gwawrio’n oren-goch oherwydd tywod o anialdir Sahara.

Cyfarfod Blynyddol “Eco’r Wyddfa”

Cafwyd cefnogaeth afieithus gan ddarlennwyr yr “Eco”mewn cyfarfod yn y Waunfawr yn gynharach yn y mis, gyda degau o bobl o bob oedran yn cynnig gwirfoddoli i gynorthwyo’r papur bro.

A phe bai ond mymryn o wirionedd yn y frawddeg agoriadol, byddai wedi haeddu sylw’r dudalen flaen!

Yn anffodus, chwech yn unig oedd yn bresennol, a phedwar o’r rheini yn swyddogion.

Diolchwyd i bawb a fu o gymorth yn ystod y flwyddyn. Apeliodd y Golygydd ar i bawb gadw at y dyddiad cau bob mis, gan fod rhai adroddiadau’n parhau i gael eu hanfon ar y munud olaf. Mae hynny’n aml yn golygu na chant eu cynnwys a/neu’n rhoi gwaith ychwanegol i’r golygydd a’r dyluniwr.

Adroddwyd fod nifer yr hysbysebwyd yn lleihau a bod incwm y papur o dâl hysbysebu wedi hanneru yn ystod y pedair mlynedd ddiwethaf. Os pery’r patrwm hwn gall olygu cwtogi ar faint y papur a/neu godi’r pris. (gweler y daflen ariannol).

Incwm a Gwariant am y flwyddyn i 31 Mawrth 2017

Incwm			
Gwerthiant	8580.15		
Hysbysebion	5455.20		
Dosbarthu taflenni	150.00		
Rhoddion	2094.50		
Grantiau			
Llywodraeth Cymru	1870.00		
Cynghorau Cymuned			
Llanberis	600.00		
Llanddeiniolen	300.00		
Llanrug	700.00		
Waunfawr	200.00	1800.00	3670.00
Cystadleuaeth Tlws yr Eco			
Llôg Banc			3.40
			19953.25
Gwariant			
Argraffu, plygu a chasglu			11830.00
Dylunio			2795.00
Teipio			2860.00
Post			507.60
Papur, amlenni ayyb			
Costau'r Wefan			431.28
Cyrsiau			32.00
			18455.88
"Elw" am y flwyddyn			1497.37

Ffair Grefftau

Cynhelir Ffair Grefftau yn Y Caban, Brynrefail ar benwythnos olaf Tachwedd: Sadwrn 25 a Sul 26 rhwng deg y bore a phedwar y prynhawn. Crefftau amrywiol gan grefftwyr lleol, gan gynnwys anrhegion delfrydol ar gyfer y Nadolig.

Premier

Y Storfa Premier Llanrug

Sgwar Llanrug

01286-673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd,
Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost

Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm



grid⁷⁶
graphic design

North Wales SIGNS

Gogledd Cymru

Uned Unit | A9 | Cibyn Ind Estate | northwalessigns.com
grid76.co.uk | 07766956673



Yr Eglwys Bresbyteraidd

Oedfa Diolchgarwch. Cafwyd oedfa fendithiol nos Sul, Hydref 15fed, pryd y gwasanaethwyd gan y Parch Geraint Roberts, Porthaethwy.

Cofion Mae ein cofion fel aelodau at ein blaenor hynaf, Jennie Angharad Roberts, sydd ers yn gynnar y flwyddyn hon wedi bod yn preswyllo yng Nghartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli, lle cafodd ofal arbennig. Ers canol Hydref dychwelodd i'w chynefin ac i Blas Pengwaith, Llanberis, lle bydd yn teimlo yn gartrefol iawn mae'n siŵr ymysg nifer o'i ffrindiau.

Y Gymdeithas

Taith i Bantycelyn, Sir Gaerfyrddin.

Ar ddiwedd tymor, mae'n arferiad gan Gymdeithas y Capel yma ym Mrynrefail fynd am daith i fannau diddorol, gan fanteisio ar y cyfle i gael gwledd ymhob ystyr! Eleni, cawsom daith arbennig a bythgofiadwy iawn, gan i ni ddewis mynd i Sir Gaerfyrddin i ddathlu tri chanmlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn yn 1717. Felly, cychwyn yn blygeiniol i weld y bedd a'r gofeb i'r Pêr Ganiedydd yn Eglwys Llanfair-ar-y-Bryn. Pleser oedd cael ein tywys o amgylch yr eglwys hardd hon gan David Gealey a oedd yn llawn afiaith yn trosglwyddo i ni stôr o wybodaeth ddiddorol a chael gweld, ymysg creiriau eraill, y ddesg lle 'roedd Williams yn ysgrifennu a chyfansoddi rhai o'i emynau. Cawsom y fraint o gael canu rhai o'i emynau gyda Lowri Prys Roberts yn cyfeilio ar yr organ bib hynafol sydd yn yr eglwys.

Symud wedyn i dref Llanymddyfri i ymweld â Chapel Coffa William Williams a chyfarfod blaenor hynaws, llawn i'r Pêr Ganiedydd. Perthyn y capel i enwad y Presbyteriaid Saesneg ac agorwyd ef yn 1888 yn dilyn cyfraniadau byd-eang at y gost ac mae gwario sylweddol wedi bod ar yr holl adeiladau yn ddiweddar. Yn anghyffredin mewn capel anghydfurfiol, mae'r capel wedi ei

addurno gan nifer o ffenestri lliw a gweithiau celf hyfryd. Mae un o'r ffenestri lliw lle darlunnir y brenin Dafydd gyda'i delyn Hebraeg er cof am gyfraniad Ieuan Gwyllt i Ganiadaeth y Cysegr (ac ef hefyd yn un o gyn-weinidogion Capel Coch, Llanberis). Un nodwedd sy'n sefyll allan ydi'r pulpud hardd o garreg sydd wedi ei osod, yn wahanol i'r arfer mewn capel Anghydfurfiol, ar ochr chwith yr adeilad yn lle'r canol.

Uchafbwynt y daith oedd cyrraedd Fferm Pantycelyn, sydd mewn llecyn hyfryd yn y brynau rhyw bedair milltir o Lanymddyfri. Cawsom groeso eithriadol o gynnes gan Cynthia a Cecil Williams, a chyfle i glywed hanes y teulu a gweld y creiriau a'r lluniau teuluol sydd wedi goroesi'r canrifoedd. Profiad arbennig oedd gweld y cloc un diwrnod hardd oedd yn dyddio yn ôl i gynnod Williams.

Diolch i Dafydd Ellis am ei drefniadau arbennig - 'roedd Dafydd wedi teithio i'r cylch rai wythnosau ynghynt i gyfarfod ein tywyswyr ac i ymchwilio'r cyrchfannau yn drylwyr.

Rhoddodd yr ymdrech yma werth ychwanegol i daith arbennig iawn. Cawsom fanteisio ar wybodaeth gefndirol ein gweinidog, Y Parch Marcus Robinson o gysylltiadau diwinyddol a hanesyddol y cyfnod. Ar y daith hir yn ôl i Frynrefail, pleser oedd profi pryd blasus yn y Cross Foxes, Brithdir. Diwrnod i'w gofio a'i drysori.

Diolch i Gwyn Hefin Jones am ei argraffiadau.


YREGLWYS BRESBYTERAIDD

Oedfaon Hydref am 5 yr hwyr

29: Parch Reuben Roberts, Bontnewydd

5: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

26: Mr Richard Lloyd Jones, Bethel.



**GWAITH
COFFAOL
LLANRUG**

**Ffôn Gwaith
(01286) 672898**

**Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394**

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwch Mewn Steil- Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

BETHEL

DIOLCHGARWCH: Gyda balchder – ac nid ymffrost – rwyf yn llunio y newyddion pentref y mis hwn. Dyma dymor y Diolchgarwch, ac mae gennym lawer i ddiolch amdano yn y gymuned arbennig yma ym Methel. Fe grebachwyd yr Wythnos Ddiolchgarwch yn y capeli i un gwasanaeth fore Sul bellach. Trueni yw hyn gan ei fod yn wefr i gyd-rannu profiadau a chyfraniad aelodau unigol mewn Cwrdd Gweddi neu bregeth noson waith. Diolch serch hynny i'r plant ac athrawon yr ysgol Sul am rodri 'orig i feddwl' i bob un ohonnom. Ond, fel mae sawl diffiniad o Gristion, mae hefyd sawl ddiffiniad o weithred Gristnogol. Isod, gwelir adlewyrchiad o un o elfennau pwysigaf Cristionogaeth sef cynnal breichiau y llai ffodus, ac yma ym Methel braf yw cofnodi enghreifftiau o hynny. Mae o hyd rai yn ein cymuned y gellir dweud amdanynt 'eu horiau roed dros eraill'.

CRONFA CALONNAU BETHEL: Dyma fenter sydd wedi tanio ymateb gan y pentrefwyr yn ddiweddar. Y sbardun tu ôl i'r syniad yw Sioned Mair Owen, Cilcain, Bethel. Bu Sioned a'i gŵr yn gyfarwydd iawn â sawl taith bryderus i ysbytai yn y cyfnodau diweddar. Y bwriad yw casglu arian i brynnu peiriant atal trawiadau'r galon – defibulator – ar gyfer y pentref. Mae profiadau sawl ardal yn tystio fod peiriant o'r fath wedi bod yn dyngedfenol i 'brynnu' eiliadau neu funudau tyngedfenol i'r dioddefwr tra bod y parameddygon ar y ffordd. Fe wnaed cais lwyddianus i fudiad Calonau Cymru am ganiatad. Cost prynnu a gosod y diffibrilydd yw £1500, ac felly mae cyfres o ddigwyddiadau yn cael eu trefnu i gyrraedd y nod. Yn wir, os bydd yr ymgyrch yn llwyddianus, efallai gellir anelu at godi £3000 ar gyfer dau beiriant. Bydd disgyblion yr ysgol yn codi arian ar ddiwrnod 'dillad eu hunain', a trosglwyddir casgliad y Gwasanaeth Diolchgarwch i'r coffrau. Hefyd cafwyd llond bore o chwerthin ar Fore Mwncis Bach yn y Neuadd Goffa. Denwyd 58 o blant-rhwng 6 wythnos a phedair oed – gyda'u rhieni i fore o gemau a champau. Llwyddwyd i wneud elw o £265. Yn bwysig hefyd fydd hyfforddi rhai i ddefnyddio'r peiriant. I'r perwyl yma mae Nick Aitken o Galonau Cymru eisioes wedi ymweld â'r ysgol i arddangos y dulliau cywir o ddefnydd. Y gobaith wedi pwrcau'r peiriant fydd ei leoli ar dir yr ysgol sydd yn fan canolig i'r pentref. Diolch i Sioned am wthio'r gwch bwysig yma i'r dwr, ac os hoffai unrhyw unigolyn neu fudiad gyfrannu at yr achos gellir cysylltu â Sioned. Cofiaf i rywun ddweud ei fod yn cyfrannu yn rheolaidd at goffrau yr Ambiwylans Awyr 'oherwydd efallai mai dod i fy nŵl i fydd hi rhyw ddiwrnod'. Mae hyn yn sicr yn wir yn yr apel yma. Mae taflen ar Facebook hefyd fydd yn rhoddi'r newyddion diweddaraf. Mae blwch cyfrannu hefyd wedi ei osod yn y Post diolch I Cled a Susan.

LLONGYFARCHIADAU :

Ymddiheuriadau i Wil a Nora, Stad Tan – y –Buarth am na chyfeiriais at eu dathliad o Briodas Aur y mis diwethaf. Ymlaen at y rhuddem bellach. Hoffai'r ddau ddiolch i deulu, ffrindiau a chyfoedion am bob cyfraniad yn y dathliad arbennig yma.

Y mae'n braf amenio bro o Aber i Lanbabo.

Dechrau eu bywyd priodasol bydd Alun Gaffey o Fethel ac Elin Owen, Llanrug. Priowyd y ddau yn Nant Gwytheyrn ganol y mis. Mae'r ddau draw yng Nghaerdydd bellach, Alun yn gynhyrchydd gyda'r B.B.C. ac Elin yn feddyg sy'n ymwneud

ag afiechydon y croen yn un o ysbytai'r brifddinas.

Yr un yw hanes Ffion Williams, Y Ddraenen Fach, Stad y Ddôl a Nicholas Taylor o Preston a briodwyd yng Nghapel y Cysegr ddiwedd y mis. Yng Nghaerdydd mae'r ddau yma yn preswyllo hefyd. Mae Ffion, tra'n dal i gadw cyswllt â'r byd actio – yn Gydlynnydd Cymru i fudiad sy'n rhoi cyfle i grwpiau drama ac ysgolion berfformio ar lwyfanau megis y Galeri.

Gweinyddwyd yn y ddwy briodas gan y Parch. Marcuis Robinson.



Alun ac Elin

RHODDION CYNGOR CYMUNED: Fel pob tymor daeth nifer gynyddol o geisiadau o bum pentref y Plwyf. Penderfynwyd rhoddi uchafswm o £4,500 i'w rannu, cyfanswm sy'n cymharu yn ffafriol a nifer o Gyngorau Cymuned Gwynedd. I ward Bethel/Seion cyfranwyd fel â ganlyn: Clwb Bro Bethel (£150), Eisteddfod Bethel (£200), Clwb Pêl-droed Bethel (£1000), a Chymdeithas Lenyddol Bethel (£50). Gan eu bod yn brif drefnwyr Rali Sir Eryri eleni, cyfranwyd £100 i goffrau Clwb Ffermwyr Ifanc Caernarfon sy'n cyfarfod ar nos Lun yn Neuadd Goffa Bethel ers sawl tymor bellach. Yn dilyn traffodaeth, cytunwyd na fuasai'r Cyngor yn ymateb i gais o'r flwyddyn nesaf ymlaen os yw'r mantolen a dderbynir heb ei archwilio, ac wedi ei harwyddo'n gymwys.

EISTEDDFOD : Roedd y rhifyn gyfredol wedi ei osod cyn cynnal yr Eisteddfod Bantref. Gobeithio cynnwys ambell lun a chrynodeb o'r canlyniadau yn rhifyn mis nesaf.



Parhad BETHEL

PARCIO / TYFIANT: Heb amheuaeth mae creu mannau parcio yn dod yn broblem gynyddol yn y pentref, yn enwedig gan fod y duedd gyfoes i barcio o flaen tai ein hunain. Datblygiad arall yn ddiweddar yw'r tuedd gan rai i barcio ar dir glas o flaen y tai. Yn sicr os ceir gaeaf gwlyb yna bydd hyn yn amharu ar gyflwr ein mannau gwyrdd. Rhaid canmol y Cyngor Sir am eu gwaith wrth dorri y mannau gwelltglas yn y pentref. Elfen arall o'r parcio sy'n creu pryder yw fod y cerbyd yn aml yn gorchuddio mynediad i brif-ffordd. Mae Bethel yn frith o gorneli peryglus. Agwedd arall sy'n creu pryder yw tyfiant o'r gerddi ar rhai o'r tiroedd sydd ar y corneli. Onid teg yw gofyn i'r perchnogion rheini docio y tyfiant i wella'r sefyllfa gweld i rai sy'n gyrru i gyfeiriad y corneli. Y peth olaf rydym yn ddymuno yw i blentyn gael ei daro.

DILYN ÔL TROED: Dyna'n llythrennol mae Aaron Martin Hughes, Swyn Eryri wedi ei wneud. Fel ei daid, y diweddar Oscar Evans, mae Aaron wedi ymuno a Heddlu Gogledd Cymru. Ar hyn o bryd mae Aaron yn dilyn cyfnod hyfforddiant yn y ganolfan yn Llanelwy. Ar ddiwedd ei gyfnod hyfforddiant, gobeithio y caiff ei ddanfoni i un o'n hardaloedd Cymraeg cynhenid, ble mae gwir alw am heddweision Cymraeg eu hiaith.

CYDYMDEIMLO: Yn dawel gartref yng nghwmni ei deulu gofalgaf bu farw John Arfon Owen, Cefn Cynrig, Bethel. Cydymdeimlwn a Pat, Sioned, Robin a'u teuluoedd yn eu colled o'wr, tad a thaid addfwyn, diymhongar. Un tawel ei sgwrs ond meddylgar a phwyllog ei farn oedd John Arfon, un o deulu Tafarngrisiau, Y Felinheli. Cynhaliwyd angladd preifat yn ôl dymuniad John Arfon. Hoffai'r teulu ddiolch yn ddiffuant am y llw a fu'n gefn drwy air a gweithred iddynt fel teulu dros y cyfnod annodd diweddar. Diolch arbennig i staff Meddygfa Waunfawr ac i Nyrsus Gwledig Ardal Llanberis a fu mor deyrngar eu gofal. Bydd arian â gyfranwyd er cof am John Arfon yn cael ei ddosbarthu rhwng y ddau wasanaeth yma.

I'ch dal, clymchwch eich dwylo – yn gwlwm

rhoch galon i'r cofio.

Yn annwyl, wedi'r wyl

daw o hyd ei ysbryd o.

RÔL YRECO : Gwnaed datganiad pendant gan y Golygydd yn rhifyn Hydref o'r Eco. Yno, roedd yn trafod a ddylasai Papur Bro fod yn fwy cynhwysfawr ei farn ar faterion lleol. Rwyf i'n ceisio bod yn agored fy marn wrth rannu gwybodaeth i drigolion Bethel. Fy mwriad yn aml yw ennyn trafodaeth ac ymateb, elfen bwysig dwi'n meddwl o gyfraniad Papur Bro. Fel mae'r Golygydd yn cyfeirio yr Eco bellach yw un o'r ychydig bapurau, cylchgronnau etc Cymraeg ei iaith sydd yn cyrraedd sawl un o'n cartrefi ni. Diddorol gwranddo hefyd ar ymateb sawl un i'r newidiadau diweddar ym 'meibl' y broydd hyn ers degawdau sef y Caernarvon and Denbigh. Er bod ei bris wedi codi yn sylweddol yn sicr ni ellir ei alw'n bapur lleol mwyach, gyda'i ail-bobiad air am air o gynnwys dyddiol y Daily Post. Ai rwan ydy'r amser i'n hardalwyr ddangos eu ffydd o wir ethos Papur Bro o fod yn gofnodwr hanes lleol, yn fforwm barn lleol ac yn gefn i'r hyn sydd yn ein cynnal sef yr iaith Gymraeg. Mewn pwyllgor diweddar dywedodd y Golygydd ei fod yn cael nifer gynyddol o 'stwf' i mewn nag all y papur ei gynnwys o ran maint a chostau cynhyrchu. Ai arwydd yw hyn o ymddiriedaeth ein hardalwyr o blaid yr Eco? Beth yw eich barn. Fy apêl yw I chwi gefnogi y criw ffyddlon, gweithgar sy'n cynhyrchu'r papur.

CRONFA McMILLAN : Cafwyd ymateb da gan y pentrefwyr unwaith eto i De Pnawn yn y Neuadd Goffa. Hoffai'r pwyllgor gweithgar ddiolch am y gefnogaeth a llwyddwyd i greu elw o £785.

CYNLLUNIO: Cafwyd gwybod y bydd y cyfarfod yn y Cyngor Sir i ganiatau/gwrthod datblygu 7 tŷ ar dir gyferbyn â Stad Rhoslan yn myned ymlaen ar ddechrau mis Tachwedd. Ni chafwyd gwrthwynebiad i adeiladu tŷ annedd ar dir fferm Cefn Gwyn, Bethel.

Gŵyl Bethel Yn Codi Arian



Aeth Sion Williams draw i gyfarfod Grŵp MND Gogledd Orllewin Cymru yn Nhŷ Golchi ar Hydref 11fed. Yma gwelir ef yn trosglwyddodd sic o £500 i John Williams, trysorydd y Grŵp, sef yr arian a godwyd gan Gŵyl Bethel er budd pobl sy'n dioddef o glefyd Motor Niwron. Trosglwyddyd eisioes £108 o'r blwch codi arian MND oedd gan Nia Catrin Campbell ar y noson Blasu Gwin.

Clwb Bro Bethel Aeth nifer dda o aelodau i ymweld â chanolfan newydd Age Cymru Gwynedd a Môn sef "Y Cartref" Bontnewydd yr wythnos diwethaf. Cawsom sgwrs gan Aled Evans yn sôn sut mae'r adeilad wedi ei ddatblygu a'i gynllunio er budd pobl dros 50 oed, ac yna soniodd Nicola am yr amrywiaeth o wasanaethau gwahanol sydd yn cael eu cynnig yn y Ganolfan, megis Clybiau Cinio, Sinema, Gofal traed, cyngor a gwybodaeth a llawer mwy.

Diolchodd y Parchedig Marcus Wyn Robinson, Llywydd y Clwb, i'r staff am eu hynawsedd a'u parodrwydd i'n derbyn yno. Cyn troi am adref bu i bawb fwynhau panad a theisen.

Merched y Wawr Cafwyd noson agoriadol hwyliog iawn yng nghwmni Ann Hopcyn a Bill Evans i ddechrau ein blwyddyn. Croesawyd pawb gan y llywydd, Liz Watkin, ac rydym oll yn falch fod Liz Pen Parc, Gwyneth Jones, Lynwen a Gwenan yn well. Dymunodd ben-blwydd hapus hwyr i Bet, Lis a Nan, y tair wedi dathlu pen-blwydd arbennig, Liz hefyd newydd ddwâd yn hen nain a Delyth yn nain eto.

Llongyfarchwyd Nora a Wil ar ddathlu ei Priodas Aur a Carwyn John ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Môn, a Mary efo'i wŷr, Aron, wedi cael ei dderbyn i'r heddlu.

Bydd Sian Griffiths, Yr Ysgwrn, efo ni ar yr 11ed o Hydref, ac mae croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni ar y noson.

Cafwyd noson ddiddorol iawn yng nghwmni Naomi Jones o'r Parc Cenedlaethol. Cafwyd sgwrs a sleidiau ar y gwaith cadwraeth a wnaed yn yr Ysgwrn dros y blynyddoedd diwethaf. Enillwyd y raffl gan Mary Evans a threfnwyd y baned gan Gwenan. Gofynnir i chi ddwâd ag arian swper Nadolig efo chi i'r cyfarfod yn Nhachwedd pan fydd Dr. Endaf ap Ieuan yn rhoi sgwrs ar Madarch Gwyllt a Llên Gwlad.

Y Gymdeithas Lenyddol Bydd gweithgareddau'r Gymdeithas yn cychwyn nos Fawrth, Tachwedd 21, am 7.00 yn Festri Cysegr. Y wraig wadd fydd Ann Pierce Jones, Hendre Cennin, a thestun ei sgwrs fydd 'Dechrau Canu'. Gobeithio y ceir cefnogaeth dda i'r Gymdeithas eleni, felly dewch yn llw i glywed sgwrs a chymdeithasu wedyn dros banad.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW

Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

PENISARWAUN

Katie Williams, Ty'n Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622

Diolch Dymuna Maldwyn ac Ella (gynt o Llys Myfyr, 1 Bron y Waun Terrace), ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a dderbyniwyd yn eu profedigaeth drist o golli eu mam, Bessie Eluned Williams. Diolch yn fawr i'r Parchedig Marcus Robinson am ei wasanaeth arbennig. Diolch hefyd i Meinir o Ymgymrwyr Dylan Griffith am ei threfniadau trylwyr a gofalus. Diolch, yn olaf, am y rhoddion hael o £1,252 a dderbyniwyd er cof am mam at **Gyfeillion Ysbyty Eryri**.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws Loteri - Enillydd Mis Medi oedd Efan Jac Roberts gyda Rhif 20. Llongyfarchiadau.

Cinio Nadolig Cynhelir y cinio Nadolig eleni yng Ngwesty'r Royal Oak, Betws y Coed,

dydd Sadwrn, Rhagfyr 9fed. Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr Ysgol am 11:45 o'r gloch. Enwau i Janet Ash (871265) Ann Paterson (872405) neu Liz Jones (872421) erbyn Tachwedd 25ain fan bellaf os gwelwch yn dda.

Diolch Dymuna Wil, 24 Bryn Tirion, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur dathlu pen-blwydd arbennig ar Fedi 28ain.

Gwellhad Anfonwn ein cofion at Ann a Dave Paterson a Janet Ash, y tri wedi gorfod treulio cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Ysgol Sul Bosra Dydd Sul, Hydref 15fed, estynnwyd croeso cynnes i ni fel Ysgol Sul i Wasanaeth Diolchgarwch teuluol yn Eglwys Santes Helen am 11.00 y bore, gyda'r Parchedig Ganon Brian Castle a'r Barchedig Ddr Carol Roberts. Cafodd y plant gyfle i gyflwyno bwyd yn ystod y

gwasanaeth tuag at Fanc Bwyd lleol. Byddwn yn ymuno ag aelodau'r Eglwys eto ar Sul y Cofio, Tachwedd 12fed yng Nghapel Bosra o 10 - 10.30 ac ymuno â'r Eglwys am 11.00.

Edrychwn ymlaen i gyfarfod Catrin Ruth Hampton, Gweithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd newydd Cynllun EFE. Edrychir ymlaen at gydweithio â hi. Gobeithir trefnu trip i weld Siôn Corn cyn y Nadolig ar ddydd Sul, Rhagfyr 10fed.

Pwyllgor Neuadd Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Hydref a'r enillwyr yw: Shirley Jones, Camelot a William Oliver, Gors, Brynrefail.

Hydref 28ain bydd yr Ysgol Gymuned yn dathlu ei phen-blwydd yn 25ain oed. Nos Iau, 26ain bydd cyfle i bawb, yn gyn-benaethiaid, disgyblion, staff a staff ategol ac unrhyw un sydd â diddordeb ymuno yn y dathlu a mwynhau'r

arddangosfeydd o gwmpas yr ysgol ac i fwynhau paned ac eitemau gan blant yr ysgol.

Bnawn Sadwrn, Hydref 28ain o 1.00 - 4.00 o'r gloch bydd drysau'r Ysgol Gymuned ar agor i bawb gael cymdeithasu a hel atgofion am y 25mlynedd a aeth heibio.

Fore Sadwrn, Hydref 28ain, bydd gwirfoddolwyr ac aelodau'r Pwyllgor yn rhannu dŵr i redwyr Marathon Eryri ym Mhen y Pas. Pawb i fod yno erbyn 9.30 os gwelwch yn dda. Pawb i rannu ceir os yn bosibl

Diolch Dymuna Geraint a theulu Careb, 8 Bryn Eglwys, ddiolch yn ddiffuant am y llu cardiau, rhoddion, galwadau ffôn, ymweliadau a'ch presenoldeb ddydd angladd Avril. Bu hyn o gysur mawr i ni fel teulu o golli un mor amhrisiadwy. Derbyniwyd £2,000 tuag at Hosbis yn y Cartref a Macmillan. Diolch o galon.

CWMY GLO

Profedigaethau

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Fedi 14eg, wedi gwaeledd hir, bu farw Elfyn Wyn Evans, 1 Maes Gerddi, yn 74 mlwydd oed. Bu ei angladd ddydd Gwener, Medi 22, yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis, ac yn dilyn ym mynwent Nant Peris. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Vera, ei fab Dewi a'i briod Carol, ei wyres Rebecca, ei or-wyres Scarlet a'i or-wyr Mason, a'r teulu oll.

Ar Fedi 19 yn dawel yn ei gartref, Cefn Bwlch, bu farw y cyn-Gynghorydd Brian Jones yn 71 mlwydd oed. Bu ei angladd ar Fedi 28 yn Amlogfa Bangor. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Olwen, ei ferch Sian a'i fab yng nghyfraith Troy, a'r teulu oll.

Bore dydd Iau, Medi 28ain, yn frawychus o sydyn yn ei chartref yn 19 Dôl Afon bu farw Alison Jones, yn 48 mlwydd oed. Bu ei hangladd ar Hydref 6ed yn Eglwys Sant Mihangel Llanrug. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i phriod Ken a'i dwy ferch Sioned a Ffion, ei rhieni Sulwen a David, a'i mam yng nghyfraith Dilys a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Sed o Hydref bu farw Bryn Evans yn 50 mlwydd oed. Mab hynaf Carol a Bobby Evans, 15 Dôl Afon, a brawd i Dylan. Bu ei angladd ddydd Iau, Hydref 19, yn Amlogfa Bangor. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Adref o'r Ysbyty Dymunwn wellhad buan i Mirs Hilda Orritt, Moranedd, ar ôl derbyn triniaeth yn ysbyty Gwynedd.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Lyndsey a Josh, 3 Tan-y-graig, ar enedigaeth mab bach, Osian.

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
••• 01286 673535 •••
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

ARVONIA


- ✓Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- ✓Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- ✓Adran teithiau grŵp.
- ✓Tocynnau rhodd.
- ✓I weld ein holl deithiau a chynigion arbennig ewch i'n gwefan.






01286-675175 www.arvonias.co.uk

Dafydd Gruffudd Ifan

Taith hudol Cyw ar draws y wlad!
Cyw's magical journey across the country!





CHWILOTA

chwilota.wordpress.com

WEA Llanrug



Yn dilyn dangos lluniau o ddosbarthiadau WEA Deiniolen a'r Waunfawr ar eu teithiau blynyddol, daeth y llun uchod a gwybodaeth gan y Dr Robin Parry am ddosbarth WEA yn Llanrug ar gyfnod diweddarach. Ei dad, Cyril Parry oedd tiwtor y dosbarth. Dyma'r hanes:

“Roedd fy nhad yn cynnal dosbarth WEA yn Llanrug tuag at ddiwedd y 1970au. Hanes gwleidyddiaeth lleol oedd y cwrs, ond does dim cofnod gen i o'r teitl swyddogol.


Cofiaf fy mod i, yn fachgen ysgol, weithiau wedi dod gyda 'nhad o'n cartref ym Mhorthaethwy i bont Crawia, i bysgota'r afon, ac yntau'n fy nghodi eto ar ei ffordd yn ei ôl wedi'r cyfarfod. Yn aml buaswn i'n hwyr yn cyrraedd at y bont a byddai yntau'n hoffi sgwrsio efo ambell sgotwr yn y maes parcio. Dwi'n cofio'n benodol iddo ddeud unwaith ar y ffordd yn ôl i'r Borth ei fod yn meddwl bod pob pysgotwr a oedd o wedi ei gyfarfod erioed yn ymddangos yn unigolion bodlon a chyfeillgar yn ddi-eithriad, sydd wrth gwrs yn wir hyd heddiw.

Cofiaf i'r dosbarth gael dwad i'n tŷ ni am swper tuag at ddiwedd un tymor, a fi a mrawd yn eistedd yn y gegin drwy'r nos - wedi taro bagen i olchi'r llestri i gyd, er na chofiaf ein gwobr.

Ar ddiwedd un o'r cyrsiau trefnwyd i'r dosbarth cyfan ymweld a Thy'r Cyffredin. Fe'u croesawyd yno gan Mr. Dafydd Wigley, ac wedi crwydro'r adeiladau hanesyddol fe dynnwyd y llun ar y teras wrth yr afon. Mae Dafydd Wigley a nhad yn y canol, a fy mam i'r dde wedyn.

Dwi'n adnabod y diweddar John Rowlands, Cledwyn Williams ac Oswald Davies a Mrs Davies.”

Llawer o ddiolch am yr hanes, sy'n profi fod yr hen ysfa bysgota wedi gwreiddio'n gynnar! Gallaf innau enwi nifer o'r rhai yn y llun, ond yn ansicr o eraill. Pwy felly all enwi pawb yn y llun?



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU


DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



Taith Clwb Eryri

... ac i barhau efo’r thema ddiwylliedig ac addysgol, dyma lun a anfonwyd gan Gwilym Evans, Llanberis yn dangos un o deithiau blynyddol Clwb Eryri. Ond a all unrhyw un o’r darllenwyr anfon yr enwau? Ac ymhle y tynnwyd y llun? A pha flwyddyn?

Ysgol Ganol Llanrug

Daeth ymateb i’r lluniau o blant Llanrug gyda’r myfyriwr Eddie Griffith. Diolch i Ann Lloyd Griffith, Llanrug am yr enwau. Ond mae rhai yn dal ‘ar goll’. Efallai fod y lluniau braidd yn dywyll i adnabod rhai o’r plant. Mae’r enwau o’r chwith i’r dde.

Llun y criw o flaen y car.

Rhes gefn: John Richardson, Gareth Rees Parry, Merfyn, ? ?

Alwyn, Gwyndaf Lewis a Douglas. Rhes Flaen: Sally Wilson, Jean, Eurgain, Carol Rees, Alwena Roberts.

Llun dosbarth.

Rhes gefn: Douglas, Gwyndaf Evans, Alwyn, Merfyn, Gareth Rees Parry, Gwyndaf Lewis ? Rhes flaen: John Richardson, Kevin Williams, Sally Wilson, Alwena Roberts, Eurgain, Carol Rees, Jean.

Ble roedd Cefn y Craswr?

Dyna gais a gefais yn ystod y mis diwethaf, gyda’r ychwanegiad fod cysylltiad hefyd â thyddyn Carreg Goch, plwyf Llanfairisgaer. Roedd rhan o’r ateb i’w gael yng nghyfrwl John Eiddon Jones ar hanes achos y Methodistiaid yn Llanrug, gydag ychwanegiadau yn Hanes Methodistiaeth Arfon gan William Hobley.

Hawdd darganfod y cysylltiad rhwng y ddau dyddyn er fod angen mynd yn ôl i ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Yn y blynyddoedd hynny, roedd gwraig o’r enw Sian William (Jane yw ei henw ar gofrestrau plwyf Llanfairisgaer) yn byw yn Garreg Goch. Eiphirod oedd Robert William, a oedd yn un o’r Methodistiaid cynharaf yn yr achos yn Nhwl y Clawdd, Llanrug cyn symud yn 1832 i gapel newydd Tanymaes, Y Felinheli. Chwaer i Sian William oedd Elisabeth, a oedd yn byw yn Cefn Craswr, Pontrug. Priododd hi gyda Robert Pritchard, Tyddyn Elen, Llanrug. Bu’r ddau deulu’n amlwg gyda’r achos cynnar yn Llanrug. Ond o ble tybed yr oedd y chwiorydd yn wreiddiol? Does dim cofnod o briodas yr un o’r ddwy yng nghofrestrau plwyf Llanrug, a gan fod y ddwy yn briod ymhell cyn 1826, roedd rheidrwydd cyfreithiol arnynt i briodi mewn eglwys wladol, ac nid mewn capel. Er hynny, gwyddom mai plant William Williams a Catherine oeddent, a William yn fab i William Bedward ac Alis Owen o’r Cefn (sef Cefn Craswr). Craswr yn y Felin Wen, Pontrug oedd y tad, a dyna sut y galwyd y cartref yn Cefn Craswr.

Roedd Sian William yn briod cyn 1786 (fe’i ganed tua 1766), oherwydd dyna’r cofnod cyntaf y gallaf ei ddarganfod am fedydd un o’i phlant. Fe’u bedyddiwyd oll yn Eglwys Llanfairisgaer: William (1/3/1786), Daniel (19/3/1788), Elizabeth (7/2/1790), Mary (6/2/1792), Catherine (29/11/1793), Anne (6/3/1796), Robert (20/4/1798), Anne arall (12/5/1799), Jane (7/2/1802) a Margaret (13/5/1804). Mae Sian William yn

parhau’n fyw ar ddyddiad y Cyfrifiad cyntaf yn 1841, yn weddw 75 oed. Yn y Garreg Goch gyda hi mae ei merch Ann (sydd bellach yn briod â John Jones) a’i merch Margaret. Yno hefyd mae plant Ann a John sef Robert, William, David a Mary.

Roedd Elisabeth William (bedyddiwyd yn Eglwys Llanrug 1769) yn briod â Robert Pritchard, Tyddyn Elen, a bu iddynt ddeg o blant, ond bu o leiaf bedwar ohonynt farw’n ifanc.

Chwaer arall oedd Margaret William (bedyddiwyd yn Llanrug 1779) a briododd Griffith Pritchard, sef brawd Robert, Tyddyn Elen. Roedd ganddynt o leiaf bump o blant. Roedd disgynydd un ohonynt yn briod ag A. R. Smith a fu’n Ysgrifennydd Cynorthwyol i’r Gweinidog dros Faterion Iechyd a Nawdd Cymdeithasol yn 1987.

Roedd William a Catherine, rhieni Sian, Elisabeth a Margaret wedi marw erbyn 1827, a chawn fod Margaret, ei gŵr Griffith Pritchard a’u plant yn byw yn Cefn Craswr erbyn 1841. Roedd Margaret William yn weithgar gyda’r achos crefyddol yn ardal Pontrug, a chadwyd gwasanaethau yn y Cefn Craswr a’r Lôn Glai cyn adeiladu’r capel – Nazareth – yn 1839, a hynny ar dir Cefn Craswr.

A dyna, felly, ateb y cwestiwn yn y testun: ble roedd Cefn Craswr? Tyddyn bychan oedd Cefn Craswr wedi ei leoli led cae o’r ffordd a thua hanner y ffordd rhwng capel Nazareth a hen fwthyn Lôn Glai. Diflannodd fel daliad amaethyddol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a llyncwyd y tir gan fferm Cefntrersaint (Kent). Un cae mawr sydd tu cefn i’r hen gapel bellach, lle bu tyddyn a thri neu bedwar o gaeau llai. Ac aeth disgynyddion yr hen Graswr ar wasgar.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro’r “Eco”, neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)

e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

Y Gymdeithas Undebol Cafwyd noson agoriadol arbennig i'r Gymdeithas eleni yng nghwmni cerddorion Hogia Bodwrog Ynys Môn. Diolch i'r parti ac i'r unawdwy am noson gofiadwy. Ken Jones, Llanberis, oedd y Gŵr Gwadd i'n hail gyfarfod, a chafwyd noson hynod ddiddorol, llawn gwybodaeth, am un o gyn bregethwyr Capel Coch, Y Parch Richard Bryn Williams neu, yn ôl ei enw mwy cyfarwydd, Y Parch Bryn Williams (Patagonia), ganddo.

Mi fydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas, Creffttau'r Nadolig, yng ngofal Mrs Pat Jones, Brynrefail, ar nos Fawrth, Tachwedd y 7fed, am 7 o'r gloch.

Diolchiadau Dymuna Maira, Bryan, Derek a'r teulu ddiolch o galon am bob cydymdeimlad a dderbyniwyd ar ôl colli Mam, Nain a Hen Nain annwyl. Derbyniwyd y swm o £576, er cof am Sally Roberts, Lorne House, Llanberis, tuag at Ymchwil Clefyd Alzheimer, diolch i bawb am eu cyfraniad caredig.

Dymuna Gillian, Aled, Llyr a Dewi, 19 Stryd Fawr, Llanberis, a hefyd Dylan, Gwenda, Tecwyn a Mair, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad a thaid annwyl, sef Gwynfor Jones (Gwynfor Lleiniau). Diolch i'r Parchedig John Pritchard, Mr Andrew Settatree a Mrs Valmai Pritchard am eu gwasanaeth. Diolch i'r Feddygfa am eu gofal ac i Mr Gwynfor Jones am y trefniadau parchus a chywir. Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Llanberis.

Grŵp tacluso pentref yn Llanberis



Mae grŵp o drigolion yn Llanberis wedi ymuno yn ddiweddar am y tro cyntaf i hel sbwriel o gwmpas y pentref.

Ers lansio'r grŵp 'Pentref Taclus Llanberis Tidy Village', maent eisoes wedi denu nifer o gefnogwyr ar Facebook ac maent yn awyddus iawn i gydweithio i ddacluso'r pentref, a hefyd i hyrwyddo eraill i wella'r amgylchedd lleol yn y pentref hanesyddol hwn yng nghanol gogoniant mynyddoedd Eryri.

Meddai sefydlydd y grŵp, Patricia Pitts: "Rwyf wedi fy mhlesio'n arw iawn gyda'r diddordeb yn y grŵp ymysg pobl leol. Dechreuodd y peth fel syniad ond gyda chymorth Trefi Taclus mae rŵan wedi newid i waith ymarferol gyda'n bore cyntaf yn hel sbwriel. Mae'n grŵp o 15 - yn cynnwys pedwar o blant - wedi casglu 15 bag o sbwriel mewn cyfnod byr o amser ac rydym rŵan yn bwriadu mynd pob bore Sul yn ystod yr haf.

Dyweddodd y Cynghorydd lleol, Kevin Morris Jones: "Mae'r balchder bro ac ysbryd cymunedol yn amlwg iawn i'w weld yma yn Llanberis gyda'r ymgyrch hon gan wirfoddolwyr Pentref Taclus Llanberis. Yn yr hinsawdd o doriadau i wasanaethau'r Cyngor mae'n galonogol iawn gweld bod pobl leol yn rhoi'r grym i'w hunain, gyda chymorth Trefi Taclus, i daclo rhai o'r problemau."

Nododd Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Gareth Wyn Griffith: "Mae'n wych

Gwobr i Salon Trin Gwallt TW Llanberis



Y llynedd oedd y tro cyntaf i'r busnes fentro i gystadleuaeth Busnes Ifanc Gogledd Cymru – a chyrraedd y rownd derfynol. Eleni, daeth y busnes i'r rownd derfynol mewn pump categori ac ennill yr adran 'Dewis y Bobl'. Hynny yw, eu cwsmeriaid eu hunain oedd wedi mynd i drafferth i bleidleisio o'u plaid, a chawsant dros chwe chant o bleidleisiau gan sicrhau'r nifer uchaf yn y categori i fusnes gyda tri o weithwyr. Roedd pymtheg o wahanol fusnesau yn cystadlu yn y categori hwn.

Cynhaliwyd y noson wobrwyo yn Neuad Pritchard Jones, Prifysgol Bangor, a bu'n llwyddiant sylweddol, gan roi llawer o sylw i lawer o fusnesau ifanc led-led gogledd Cymru. Meddai Wayne Jones: "Rydwi'n arbennig o falch o dderbyn y wobwr ar ran y tim. Mae'r categori 'Dewis y Bobl' yn dangos ein bod yn plesio ein cwsmeriaid a'u bod hwythau yn fodlon cydnabod hynny drwy bleidleisio i ni."

Dymuna Wayne, Lowri, Lois a Lois Megan ddiolch i bawb a bleidleisiodd, tra'n llongyfarch yr enillwyr eraill yn y gwahanol categorïau hefyd.

gweld cymunedau, fel Llanberis, yn cymryd perchnogaeth o'r broblem ac yn mynd ati i lanhau eu pentrefi. Dyma falchder bro ar waith ac mae'n dangos be' sy'n bosib gydag ychydig o help. Bydd eu hymdrechion yn ysbrydoli eraill, ynghyd a chywilyddio rhai sy'n diystyru ein hamgylchedd lleol."

Darparwyd offer i alluogi'r grŵp i hel sbwriel gan fenter Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, sydd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru, sydd a'r nod o hyrwyddo cymunedau i wella safon yr amgylchedd lleol. Mae Pentref Taclus Llanberis yn ddiolchgar i Fenter Fachwen, Siemens Healthineers Llanberis, a Chadwch Gymru'n Daclus am eu cymorth.

Os oes unrhyw un â diddordeb yn y grŵp o Lanberis ewch i dudalen Facebook Pentref Taclus Llanberis neu e-bostiwrch pentreftaclusllanberis@outlook.com neu galwch i mewn yn Fenter Fachwen ar Stryd Fawr Llanberis.

Gall unrhyw un sy'n ei gael yn euog o daflu sbwriel mewn man cyhoeddus wynebu orchymyn llys a dirwy o hyd at £2,500. I adrodd am unrhyw achosion o dipio anghyfreithlon, cysylltwch gyda thîm gorfodaeth stryd Cyngor Gwynedd ar 01766 771000.

Am ragor o wybodaeth am gynllun Trefi Taclus Cyngor Gwynedd neu os byddech chi'n hoffi cychwyn grŵp cymunedol, cysylltwch gyda'r tîm ar 01766 771000 neu e-bostio trefitaclus@gwynedd.llyw.cymru i ofyn am becyn cymunedol.

Gwobrwyo Arwyr Cymunedol



Mewn seremoni yn Llandudno wedi ei noddi gan Grwp Trinity Mirror a'r Scottish Power Foundation, gyda'r darlledwr Arfon Haines Davies yn llywyddu, a'r cyn chwaraewr rygbi Shane Williams yn ŵr gwâdd, daeth dwy o wobrau 'Arwyr Cymunedol' i'r fro.

Y brodyr Eric ac Emlyn Baylis o Lanberis enillodd y categori 'Gwirfoddolwyr y Flwyddyn', a hynny am eu gwaith di-flino yn gwella'r amgylchedd gweledol ym mhentref Llanberis. Dros gyfnod o amser bu'r ddau yn trin lleiniau o dir o amgylch y

pentref, yn plannu blodau ac yn tir-lunio mannau blêr gan eu troi'n erddi lliwgar o flodau a llwyni. Bu amryw o'r pentrefwyr yn cyflwyno sachau o fylbiau neu botiau o blanhigion i'r brodyr, a hwythau'n mynd ati i'w plannu led-led y pentref.

Haf Thomas o Lanrug enillodd y categori 'Pencampwraig Cymunedol y Flwyddyn'. Yr elusen Awyr Las a fu'n gyfrifol am enwebu Haf, a hynny am ei gwaith eithriadol yn codi arian. Mae wedi bod yn casglu ers blyneddau i wahanol elusennau lleol a chenedlaethol, a hyd yn hyn wedi casglu dros £51,000.

CLWB CINIO ARFON

Cawsom wledd o fwyd ac adloniant y mis hwn. Roedd Mary a Richard wedi trefnu i'r hanesydd, naturiaethwr a cherddwr Dafydd Whiteside Thomas ddod draw fel gwestai. Fel testun aeth Dafydd a ni hyd lannau Afon Rhythallt, hynny yw y rhan o Afon Saint sy'n llifo o Lyn Padarn lawr i Cawia. Fel yr afon ei hun, roedd yr eirfa – gyda lluniau hynafol – yn llifo a llyfn. Tystiolaeth o ymchwil trwyadl a pherthynas â thestun yw'r gallu i draddodi am dros hanner awr heb nodiadau wrth law. Yr oedd yn daith ryfeddol, oherwydd y gwahanol agweddau dynol a naturiaethol oedd ynghlwm â'r afon.

Cawsom ddilyn rhediad ac aml droadau yr afon. Ein cyflwyno i llynoedd yr afon – rhai bellach wedi diflannu. Am borthladd Cwm-y-glo, a'r gallu i deithio oddi yno mewn cwch yr holl ffordd i ben uchaf Llyn Peris ar un adeg. Y ffyrdd a adeiladwyd a'r frwydr barhaol yn erbyn eu boddi'n aml gan lifogydd. Pontydd dros yr afon. Y diwydiannau ar y glannau gan gynnwys ffatri cynhyrchu llechi

ysgrifennu i ysgolion. Yna y rheilffyrdd – i gyflawni'r chwarel ac hefyd lein yr L.M.S. i Lanberis. Y fath gymysgedd o fywyd. Y pysgota wrth gwrs, gan gofio fod yna ddeorfa bwysig ger Cawia erbyn hyn.

A'r gair Cawia ei hun. I nifer o'r gwrndawyr ystyr Cawia oedd mwy nag un crawen, hynny yw pileri llechi sy'n britho yr ardal. Nid felly yn ôl y darlithydd. Cawia yw'r ffurf luosog ar 'criw', hynny yw rhes o gerrig a osodwyd ar draws llif yr afon, beth fuasai'n cael ei alw yn Saesneg yn 'weir'.

Beth bynnag, cafodd y 'criw' yno noson i'w chofio. Rhan o'r ddarlith hwy sy'n dilyn taith y Saint i'r aber oedd hon. Rwyn siwr y bydd llawer i gymdeithas lleol yn teimlo yr un wefr o wrando ar Dafydd yn traddodi. Diolch iddo.

Y mis nesaf ar Dachwedd 3ydd bydd y noson wedi ei threfnu gan David James.

Digwyddiad dathlu agor Llwybr Llechi Eryri a hannercanmlwyddiant Cymdeithas Eryri

Dewch i ddathlu agor y llwybr cylch 85 milltir o hyd yma sy'n galluogi cerddwyr i ddarganfod treftadaeth ddiwydiannol pentrefi chwarelyddol Eryri.

Dyma benllanw misoedd o waith caled gan wirfoddolwyr, mudiadau a chontractwyr sydd wedi bod yn brysur yn sefydlu'r llwybr hynod yma ac yn cynnal prosiectau difyr efo ysgolion a chymunedau. Bydd y cyfoeth o ddeunydd treftadaeth a chelf sydd wedi cael ei greu yn waddol gwych i ymwelwyr a phobl yr ardaloedd llechi i'w fwynhau a gwerthfawrogi. Dewch i weld a chlywed mwy, ac yn bennaf oll, i ddathlu!

Lle: Neuadd Ogwen, Bethesda

Dyddiad: 10 Tachwedd

Amser: 2 – 5 yp

RSVP: i aledocwm@uwclub.net 07940 854773 cyn 1 Tachwedd

Mi fydd y digwyddiad yn dwyieithog



RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

**AR GYFER
POB
ACHLYSUR**

DEWCS MAE
O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

ECO'r Wyddfa

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia

Apel i'r Ifanc – ac eraill

Dwi'n rhedeg gwefan blog Cymraeg (lloioangharad.cymru) ac yn y flwyddyn newydd bydd y wefan yn cael ei ehangu i fod yn wefan cylchgrawn sy'n trafod ffasiwn, harddwch a materion cyfoes. Pwrpas y wefan yma ydi hybu plant a phobl ifanc ledled Cymru i rannu cynnwys cyfoes ar wefannau cymdeithasol yn Gymraeg a'u hannog i drafod pynciau poblogaidd yn y Gymraeg gydag eraill.

Mae'n hynod bwysig ein bod yn cyrraedd cyn gymaint o bobl ac sy'n bosib o amgylch y wlad ac annog pawb, o bob oedran a gallu Cymraeg, i gymryd rhan.

Felly, dwi'n chwilio am gyfrannwyr i ysgrifennu erthyglau yn achlysurol. Nid yn unig hynny, ond dwi hefyd yn chwilio am unigolion i fod yn rhan o banel fydd yn cyfarfod yn achlysurol dros Skype neu mewn cyfarfod (bydd hyn yn cael ei drafod ymhen amser ac yn ddibynol ar faint sy'n dangos diddordeb ym mhob ardal). Bwriad y panel ydi gwneud yn siwr fod pawb o bob cefndir yn cael y cyfle i gynnig syniadau gwahanol ar gyfer y wefan; y cynnwys a mwy!

Mae modd cysylltu drwy ebostio contact@lloioangharad.cymru neu ar y tudalen Facebook, [facebook.com/lloioffasiwn](https://www.facebook.com/lloioffasiwn)

Diolch yn fawr,

Llio Angharad

Gŵyl Llanber

Mae Angharad Morris, sy'n wreiddiol o Lanberis ond erbyn hyn yn byw ym Methesda, yn rhan o'r criw sy'n mynd ati i ail-ddechrau Gŵyl Llanberis. Dyma'r Eco'n mynd i'w holi:

Beth sy'n digwydd gyda Gŵyl Llanber?

Mae grŵp ohonom o'r gymuned leol wedi dod at ein gilydd i atgyfodi'r Ŵyl yn Llanberis, ers i'r Carnifal ddiweddu yn 2002. Mae llawer yn hiraethu am ddyddiau difyr y 'Carnifal' a'r gobaith ydi atgyfodi'r diwrnod o hwyl a chynnal y naws gymunedol sydd yn barod yn gryf yma yn y pentref. Cynhelir Gŵyl Llanberis ar y 28ain Orffennaf, 2018, gyda llu o weithgareddau yn adeiladu tuag at y diwrnod, fydd yn cynnwys gorymdaith trwy'r pentref.

Sut ydych chi'n mynd ati i godi arian?

Bydd llawer o ddigwyddiadau codi arian yn dod fyny yn y flwyddyn newydd, cawsom lwyddiant mawr yn y noson bingo diweddar ble wnaethom hel £300 tuag at yr Ŵyl. Hefyd mae raffl ar werth ar y funud, gyda gwobrau yn cynnwys taleb teulu trên y wyddfa, lle yn Triathlon Llanc y Llechi, lle yn Ras y Wyddfa, Taleb MOT, Taleb siopa SPAR a llawer mwy. Cysylltwch â Cyng. Kevin Morris Jones i brynu raffl neu maent ar werth yn y Becws Llanberis.

Be wnaeth wneud i ti fod yn rhan o'r peth?

Gan fy mod bellach yn byw ym Methesda, mae'n gyfle i mi ddod yn ôl i'r gymuned ble cefais fy magu er mwyn cyfrannu at ddigwyddiad sydd wedi bod yn agos iawn i galonnau llawer o drigolion yr ardal. Mae'n wych cael bod yn rhan o'r fenter - a byddaf yn mwynhau'r diwrnod ychydig yn fwy yn gwybod fy mod wedi cyfrannu i'r paratodau. Mae wedi rhoi cyfle i mi ddod i adnabod llawer o drigolion newydd hefyd sy'n braf.

Rydym fel pwyllgor Gŵyl Llanberis wastad yn edrych am wynebau newydd i fod yn rhan o'r trefnu a'r diwrnod ei hun. Mae croeso mawr i unrhyw un sydd â diddordeb bod yn rhan o'r Ŵyl e-bostio gwyll.llanberis@gmail.com.

Creu Cush Cyfforddus



Mae Elan Rhys o Fethel yn byw yng Nghaernarfon ac yn gydlynnydd ac ymarferydd creadigol. Gweithiai gyda'r elusen GISDA, ysgolion lleol a phrosiect Criw Celf. Mae hi hefyd yn rhan o'r grŵp Plu. Dechreuodd gwmni clustogau Cush ddwy flynedd yn ôl ond mae hi bellach wedi ehangu'r cwmni ac wedi agor siop ar y wê.

Beth wnaeth i chdi ddechrau'r busnes?

Roedd gan Mam ddwy hen flanced tapestri Cymreig adra, oedd yn dyllau i gyd. Oherwydd y tyllau doedden nhw ddim yn flancedi deniadol iawn yn anffodus, ond roedd digon o rannau oedd mewn cyflwr da i mi greu clustogau ohonynt, felly dyna wnes.

Pryd wnaeth dy ddiddordeb mewn tecstilïau ddechrau?

Mae gen i ddiddordeb mawr mewn tecstilïau ers i mi gofio. Dechreuais wniô â llaw pan oeddwn yn ferch fach - yn creu addurniadau i'r goeden Nadolig a darnau i Eisteddfod Bethel, yr Urdd ag ati. Pan oeddwn yn astudio Celf yng Ngholeg Menai datblygodd fy niddordeb mewn arbrofi gyda thecstilïau ac es ymlaen i astudio gradd mewn Tecstilïau Cyfoes yng Nghaerdydd. Er nad ydw i wedi canolbwyntio ar greu celf o decstilïau ers gadael y Brifysgol, mae fy niddordeb mewn creu pethau i'w defnyddio, fel dillad a chlustogau wedi tyfu. Sut wyt ti'n darganfod y defnyddiau?

Defnyddiaf hen flancedi tapestri traddodiadol o Gymru yn unig i greu fy nghlustogau. Rwy'n eu casglu drwy chwiliota ar y wê ar wefannau fel Ebay a mynd i ocsiynau. Erbyn hyn mae llawer o bobl yn adnabod gwerth y blancedi bendigedig yma felly maent yn ddrud i'w prynu.

Lle gall rhywun gael gafael ar y clustogau?

Mae siop Lotti & Wren yng Nghaernarfon wedi bod yn gwerthu fy nghlustogau ers cwpl o flynyddoedd bellach ond rwyf newydd agor fy siop fy hun ar y wê. Cyfeiriad y wefan yw www.etsy.com/uk/shop/CushTextiles

Mi fyddaf hefyd yn gwerthu fy nghlustogau yn Farchnad Retro-Vintage yn SHED, Y Felinheli ar Dachwedd yr 11eg rhwng 11yb a 4yb.





Ysgol Brynrefail

Blwyddyn 7 yn perfformio rhan o un o ddramau Shakespeare.

Cofiwch archebu eich tocynnau er mwyn gwyllo disgyblion blwyddyn 7 yn perfformio yn Galeri ym mis Tachwedd fel y gwelwch yn yr hysbyseb. Mae'r disgyblion wedi bod yn ymarfer yn brysur ar gyfer y perfformiad. Dyma rai o luniau'r ymarfer cyntaf. Dewch yn llu i'w cefnogi!



Mae Sefydliad Shakespeare Ysgolion yn falch o gyflwyno gŵyl ddrama ieuencid mwyaf y byd yn Galeri – am y tro cyntaf.

Cyfle i fwynhau cyfres o gynhyrchiadau Shakespeare unigryw wedi'u llwyfannu gan ysgolion lleol – Ysgol Brynrefail ac Ysgol Gymuned Pentraeth.

Galeri, Caernarfon

01286 685250

post@galericaernarfon

16.11.2017 | 19:00

£9.50 Oedolion/£7.00 Plentyn





Blwyddyn 10 yn clywed hanes Hillsborough

Bore dydd Mercher y 4ydd o Hydref cafodd disgyblion dosbarthiadau Cymraeg Blwyddyn 10 y pleser o groesawu'r Cynhyrchydd Teledu a'r Gohebydd Chwaraeon Dylan Llewelyn i'r ysgol. Yn ystod ei ymweliad bu Dylan yn rhannu ei brofiad o fod yn rhan o drychineb Hillsborough gyda'r disgyblion cyn cynnal sesiwn holi ac ateb gyda nhw. Mae Dylan wedi bod yn gyfrifol am y rhaglen ddarlledwyd ychydig fisoedd yn nol – 'Hillsborough – yr Hunllef Hir'. Roedd y disgyblion wedi mwynhau ei gyflwyniad a'r cyfle i sgwrsio gydag ef yn arw. Diolch Dylan.

Bore Coffi Macmillan

Ar yr wythfed ar hugain o fis Medi fe gynhaliwyd Bore Coffi Macmillan yn llyfrgell yr ysgol ar gyfer disgyblion y chweched dosbarth a staff yr ysgol. Eleni fe lwyddwyd i gasglu £268 ar gyfer yr elusen.

Cafodd y bore coffi ei drefnu gan Jessica McGee o flwyddyn 13 a grŵp o ddisgyblion o flwyddyn 12. Cafwyd lawer o gyfraniadau o gacenni gan y disgyblion a'r athrawon. Derbyniwyd nifer fawr o gacennau blasus i'w rhannu ar y diwrnod. Rydym yn ddiolchgar am yr holl gyfraniadau rhai ariannol ac eraill. Diolch hefyd i'r disgyblion a wnaeth brynu'r holl ddeunyddiau pwrpasol.


Mae'r arian a gasglwyd ar y diwrnod am fod yn help mawr i alluogi i ddioddefwr cancr i gael nyrs Macmillan i'w cefnogi drwy eu triniaeth cancr. Arbenigwyr yn y maes gofal cancr yw nyrsus Macmillan sydd hefyd yn gynghorwyr i'r cleifion. Maent yn cynnig ysgwydd i grio arni yn ystod adegau caled a hefyd mewnbwn a chymorth proffesiynol, nid yn unig i'r cleifion ond i'w teuluoedd hefyd.

Gobeithiwn y bydd Bore Coffi Macmillan yn draddodiad fydd yn cael ei barhau gan flynyddoedd 13 a 12 y flwyddyn nesaf. Rydym yn siŵr byddant yn gafael ynddi gyda'r un brwdfrydedd â chriw'r flwyddyn yma yn y dyfodol er mwyn parhau ein cefnogaeth yn Ysgol Brynrefail i'r elusen hynod bwysig yma.

Diolch i bawb a wnaeth helpu ar y diwrnod ac i bawb a wnaeth gyfraniad.



Dathlu i'w Gofio



Guto aelod ieuengaf yr Ysgol Sul gyda'r gacen ben-blwydd.

Cafwyd gwasanaeth ac achlysur i'w gofio yn Eglwys Crist Llandinorwig dydd Sul, 24 Medi, pan ddaeth tyrfa dda ynghyd o bob oed i ddathlu 160 mlynedd union ers y cysegrwyd yr Eglwys ar 24 Medi 1857. Trefnwyd a lluniwyd y gwasanaeth mewn taflen arbennig gan y Canon Idris Thomas, Glanrafon, a diolchir iddo am y gymwynas arbennig. Yn bresennol hefyd ac yn cymryd rhan yr oedd y Canon Robert Townsend sydd â gofal o'r Eglwys. Yr organydd oedd y Dr. William Munro ac ef a Brian Price a ddarllenodd y llythoedd. Roedd un o'r Emynau a ganwyd o waith y diweddar Ganon Geraint Wyn Edwards a fu'n offeiriad yn Llandinorwig am gyfnod byr, cyfansoddodd ei Emyn pan ddathlwyd 150 mlynedd yr Eglwys ddeng mlynedd yn ôl. Yn y gwasanaeth dathlu traddododd y Canon Idris Thomas dri o anerchiadau hynod gynhwysfawr ond rhai pwrpasol a diddorol yn ymwneud â'r cyfnod cyn y Cysegru, yna hanes llawn Dydd y Cysegru ei hun a gweledigaeth arbennig am y dyfodol. Darllenodd y Canon Robert Townsend lythyr cyfarchion calonogol iawn yr Esgob Andy John i holl aelodau'r Eglwys a gwerthfawrogi yn fawr gan bawb ei eiriau caredig a chadarnhaol. Offrymwyd y gweddïau addas gan Rhianwen Jones a Rosina Worth ac ar ddiwedd y gwasanaeth safodd pawb ar eu traed i adrodd gyda'i gilydd Weddi o Adduned.

Uchafbwynt y gwasanaeth oedd y gân a ganwyd mor afieithus gan blant yr Ysgol Sul, sef geiriau o waith Mrs Gwen Griffith, un o athrawon yr Ysgol Sul. Y plant oedd Guto, Glesni, Cynan, Deion, Jessica, Shane ac Efa Jane ac ymunodd y gynulleidfa gyda hwy i ganu pennill yn dymuno pen-blwydd hapus i Eglwys Llandinorwig. Gwelwyd gan bawb waith y plant ynglŷn â'r dathlu a wnaethpwyd y bore hwnnw. Mae'r Ysgol Sul yn cyfarfod bob bore Sul yn yr Eglwys a diolchwyd yn y gwasanaeth am waith arbennig Mrs Eileen Hughes, Mrs Rhianwen Jones a Mrs Gwen Griffith hefo'r plant.

Bydd yr Ysgol Sul yn cyflwyno gwasanaeth Sul yr Adfent yn yr Eglwys ar fore Sul, Rhagfyr 3ydd, am hanner awr wedi deg y bore. Y casglwyr oedd Leonard Jones a Kenneth Harris a'r clochdydd oedd Darryl Williams.

Ar ôl y gwasanaeth mwynhaodd pawb wledd arbennig wedi ei baratoi gan ferched caredig yr Eglwys a chyfle i sgwrsio yn braf; hyfryd oedd i Mrs Jennie Williams, aelod hynaf yr Eglwys, dorri y gacen ben-blwydd arbennig a phawb wedyn yn ei mwynhau. Diwrnod hapus i bawb oedd hwn a digwyddiad i'w drysori.

Angladd

Dydd Gwener, 13 Hydref, cynhaliwyd angladd Enid Caroline Jones, Ysgoldy Cottage, Clwt y Bont, yn Eglwys Penisarwaen. Hunodd Enid yn Ysbyty Gwynedd ar 8 Hydref yn 87 mlwydd oed; yr oedd yn briod cariadus a chymar oes i Aled ac yn chwaer yng nghyfraith a modryb annwyl. Roedd yn un o wyth o blant i Griffith a Sera Jones, Celyn a'r olaf ohonynt i ymadael â'r fuchedd hon. Mynychodd Ysgol Deiniolen ac aeth i fod yn Nani wedyn yn un o blastai Môn cyn dychwelyd i Celyn i ofalu'n arbennig am ei mam. Priododd ag Aled o Hafod Olau yn Neiniolen yn Ionawr 1955 ac felly roedd y ddau wedi treulio 62 mlynedd o fywyd priodasol. Aeth Aled i Ddinbych i'w hyfforddi i weithio yn Ysbyty'r Meddwl yno lle y perchid ei waith yn fawr a bu yno am ddeugain mlynedd a mwy; gweithiai Enid yn yr Ysbyty hefyd. Ymgartrefodd y ddau yn hapus iawn yn Ninbych a'u cartref oedd Bryn Stanley yn y dref a gwnaethant gyfeillion oes yn yr ysbyty a'r gymuned. Ar ôl ymddeol daethant i'r Felinheli am bedair blynedd cyn dod i'w haelwyd bresennol dair blynedd ar ddeg yn ôl. Gwraig dawel a diwyd oedd Enid; roedd hi ag Aled yn byw i'w gilydd. Gwasanaethwyd yn ei hangladd yn yr Eglwys a'r Amlosgfa gan y Canon Idris Thomas, Glanrafon,

Deiniolen, a thalodd deyrnged haeddiannol i Enid; yr organydd oedd William Williams, Llanrug. Aeth rhoddion er cof am Enid tuag at Cronfa Macmillan a Meinir o Dylan Griffith, Tros y Waen, Penisarwaen, oedd y Cyfarwyddwyr Angladdau.

Cyfarchion Dymunaf i, Beti Roberts, Rhydfadog, Nadolig Llawn a blwyddyn newydd dda i deulu, ffrindiau a chymdogion gan nad ydwyf yn gyrru cardiau Nadolig eleni.

Plaid Cymru Cafwyd cyfarfod llwyddiannus yn ddiweddar i ail sefydlu cangen Plaid Cymru yn y pentref. Am fanylion pellach cysylltwch â'r cynghorydd lleol, Elfed Williams.

Salwch Dymunir gwellhad buan i'r rhai a fu'n dioddef gwaeeidd yn ddiweddar.

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen Ceir canlyniadau'r eisteddfod yn llawn yn rhifyn nesaf yr Eco.

Diolch Dymuna Cissie a Jennie, efeilliaid Gorlan, ddiolch o galon am y llu cardiau, galwadau ffôn, arian, blodau a llu o bethau eraill a dderbyniodd y ddwy ar achlysur eu pen-blwydd yn 91 mlwydd oed. Y maent yn hynod ddiolchgar i'r teulu, cymdogion ac ardal Deiniolen. Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cofio eleni eto, maent yn gwerthfawrogi y cyfan ac yn hynod ddiolchgar.



GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Cydnabod Gwasanaeth Oes i'r Band



Yn Ninorwig y magwyd Hefin G. Jones, ac yn wyth oed ymunodd a Band Deiniolen. Y cornet oedd ei offeryn, ac yn fuan iawn roedd wedi magu digon o brofiad i ymuno a'r Band Hyn. Perfformiodd y Band mewn cyngerdd yn Neuadd Albert, Llundain ym mis Mawrth 1960, a Hefin, yn ddeuddeg oed, oedd yr aelod ieuengaf ar y llwyfan.

Bu'n aelod ffyddlon i'r Band a bu'n hyfforddi llawer o aelodau ifanc ar hyd y blynyddoedd. Bu'n arweinydd hefyd ar y Band Ieuenctid a'r Band Hyn. Ond nid fel chwaraewr, hyfforddwr ac arweinydd y bu ei unig gyfraniad. Yn 1974 derbyniodd y swydd o Drysorydd, a gwnaeth y gwaith pwysig hwn yn ogystal a'i ddyletswyddau eraill hyd ddiwedd 2016 – 42 mlynedd o wasanaeth di-dor.

Cyflwynwyd llun o'r Hen Felin (sef cartref presennol y Band) iddo fel arwydd o ddiolchgarwch am ei ymroddiad dros yr holl flynyddoedd.

Gwasanaethau eraill yr ardal ar y Sul Ar ran eglwysy Cefn y Waun ac Ebeneser, os gwelwch yn dda os oes gennych wasanaethau ar nos Sul yn wahanol i beth sydd yn cymryd lle yn y ddau gapel uchod, a fuasech mor garedig â rhoi cyhoeddiad mewn digon o amser i'w gyhoeddi yn y capel gan ein bod fel capeli yn gorfod cael gweinidogion / cennad ymhell o flaen llaw. Mae nifer gweinidogion erbyn hyn wedi mynd yn fychan ac yn brin iawn ac yn anodd iawn i'w cael. Felly fe welwch nad yw yn braf iawn gorfod dweud wrthynt rhyw ychydig wythnosau ymlaen llaw nad oes arnom eu hangen. Y tebygrwydd ydyw eu bod wedi gwrthod capeli eraill ac, yn sicr ddigon, fel ag a ddigwyddodd ychydig wythnosau yn ôl, gorfod ymddiheuro i weinidog da gan nad oedd dim ond chwech yn y gynulleidfa. Nid yw peth fel hyn yn braf iawn i'w wneud ac yr wyf yn gobeithio yn arw na chaf fy hun yn y fath sefyllfa eto.

Carwn ddiolch i chwi ymlaen llaw am eich cydweithrediad. Diolch yn fawr.

Cynhaeaf Mae'r tymor Diolchgarwch hefo ni unwaith eto a dyn a wŷr, mae gan bob un ohonom le mawr i ddiolch amdano. Er, erbyn y dyddiau yma mae wedi newid yn fawr iawn. Rwyf yn cofio pryd y byddai y chwarel yn dawel ar ddydd Llun Diolchgarwch. Yr oedd tri gwasanaeth ar y Sul a thri ar y dydd Llun. Y plant yn cymryd gwasanaeth pnawn Llun a babis a phlant bychan iawn yn dod i'r gwasanaeth ac, wrth gwrs, yr oedd yn rhaid cyfrannu mwy at yr achos ar y Llun. Yr oeddwn i wrth fy modd efo y diwrnod yma, os yn braf byddwn yn cael mynd allan i chwarae ond os y byddai yn bwrw byddwn yn cael gwau yn y tŷ, gan nad oedd fiw gwneud y pethau yma ar y Sul gan fy mam. Er y newid mawr mae gennyf ofn bod dylanwad fy rhieni arnaf fi o hyd.

Tybed a ydym wedi colli rhywbeth arbennig iawn?

Capeli gwag sydd gennym ar y Sul yn awr, hynny ydyw os nad yw y capel wedi cau, a rhai yn ardal yr Eco wedi eu tynnu i lawr, colledion mawr i lawer ardal.

Ar ddydd Llun Diolchgarwch byddai rhai yn troi i'r cysegr efo'u harian a dyna hwy wedi anghofio am y capel am flwyddyn arall.

Mae dydd Llun Diolchgarwch heddiw wedi mynd yn ddiwrnod o waith, a'r rhan fwyaf wedi anghofio am y gair bach 'Diolch'. Gobeithio rhyw ddiwrnod y gwelwn y dydd yma yn dod yn ôl.

Yn yr Ysbyty Mae aelod hynaf eglwys Cefn y Waun, sef Mr John Ellis Morris, Rhiwen, wedi bod yn Ysbyty Gwynedd, ac ar hyn o bryd mae yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Mae Mr Morris yn 103 ac os y caiff weld yr 22ain o Ragfyr, bydd yn 104. Yr ydym fel eglwys yn dymuno gwellhad buan iddo a gobeithio y caiff ddod adref i ddathlu ei ben-blwydd. Ei ddymuniad yw cael dod adref i'w gartref ei hun. Mae Gwyn ei fab ac Einir ei ferch yng nghyfraith yn hynod o garedig efo fo.

Cyn iddo fynd i'r ysbyty yr oedd Gwyn yn galw efo fo bob dydd ac yn gofalu ei fod yn iawn ac, ar ddydd lau, yr oedd yn mynd â fo am dro yn y car. Byddai yn edrych ymlaen am fynd a chael sgodyn a sgolodion i ginio.

Diolch i Dduw am roi mab fel Gwyn iddo. Cofion gorau'r capel atoch a gobeithio am fwy o dripiâu efo Gwyn.

Cofion annwyl at Mrs Megan Morris sydd yn 102 ac yn preswyllo yn Plas Garnedd, Llanberis. Hefyd, erbyn hyn y mae Mrs Priscilla Williams, Wylfa, wedi dathlu ei phen-blwydd yn 103 yn ei chartref. Mae y ddwy yn lwcus o blant sydd yn garedig iawn wrthynt.

Gobeithio eich bod eich dwy yn cadw yn weddol, ac yn mwynhau eich bywyd.

Ymddeoliad Rhyw ychydig ddyddiau yn ôl cefais alwad ffôn gan Mr Charles Jones, Dwyrws, Glan Ffynnon, Llanrug, yn dweud ei fod yn ymddeol o fynd allan i bregethu ar y Sul. Colled i ni yng Nghefn y Waun, fel llawer eglwys arall. Bu inni gael ei gwmni ar lawer Sul.

Diolchwn yn fawr iddo am yr hyn a gafwyd ganddo, a gobeithio inni gael bendith wrth wrando arno. Yr ydym fel eglwys yn dymuno ymddeoliad hapus iddo a phob bendith ac iechyd, gan obeithio y bydd iddo fwynhau gwrando ar eraill, fel y bu i ni gael mwyniant wrth wrando arno fo.

Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Ffôn-(01286)-870277



Capel y Rhos - Gwasanaeth Diolchgarwch



Plant yr Ysgol Sul fu'n gyfrifol am y gwasanaeth eto eleni. Gyda diolch i'r athrawon am eu hyfforddi.

Colli aelod Rydym wedi colli aelod arall o'r capel yn ystod mis Hydref. Bu farw Mrs Enid Roberts, gynt o Minafon, Tan y Coed. Roedd hi'n ffyddlon iawn i'r achos ar hyd y blynyddoedd hyd nes i'w iechyd ddirywio a gorfu iddi fynd i Gartref Preswyl Plas Pengwaith, Llanberis. Cynhaliwyd ei hangladd fore Sadwrn,

Hydref 7fed, gyda'r Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson yn gweinyddu. Yr organydd oedd Mair Lloyd Hughes. Claddwyd Miss Roberts yn mynwent Llanrug gyda'i diweddar frawd, Mr L.J. Roberts. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu yn eu colled a'u hiraeth.

Ffarwela Diolch Alan



Bu Alan Dulyn Owen yn aelod gwerthfawr iawn o Seindorf Arian Llanrug am 47 mlynedd. Gadawodd Seindorf Dyffryn Nantlle ac ymunodd â Llanrug yn Nhachwedd 1970 ar gyfer y gystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor yn 1971. Yn ystod ei gyfnod yn Llanrug bu'n chwarae o dan ddeg arweinydd gwahanol a chymerodd ran mewn mwy na 200 o gystadlaethau. Mae nifer o weithgareddau yn dod i'w gof ac un o'r uchafbwyntiau oedd trip y band i'r Almaen a Luxemburg yn yr wythdegau cynnar. Buont yn chwarae ym mhrif adeilad y Comisiwn Ewropeaidd yn Luxemburg.

Ond pinacl ei yrfa gystadluol oedd cael cynrychioli Cymru yn y Rownd Derfynol Genedlaethol yn Cheltenham ym mis Medi eleni. Gorffen felly ar y brig.

Mae Alan wedi gwneud llu o ffrindiau oes yn ystod ei yrfa yn Llanrug ac er ei fod am orffen chwarae y corn mawr Bb, mae am gario mlaen yn y cefndir ac am gefnogi'r band yn eu gweithgareddau. Pob dymuniad da, Alan, a diolch diffuant iawn am dy holl ymroddiad i Fand Llanrug ar hyd y blynyddoedd.

Bore Coffi Macmillan



Cynhaliwyd Bore Coffi yn y Sefydliad Coffa ar y 29ain o Fedi a llwyddwyd i gasglu £451 tuag at achos Macmillan. Diolch yn fawr i bawb am y gefnogaeth



Effaith Offilia

Parhad LLANRUG

Profedigaethau Ar ôl gwaeledd hir, yn dawel bu farw Sranley Jones (Stan Siop) 8 Ffordd Glanffynnon. Gŵr hoffus Bet, tad annwyl Brian, Alan, Nicola a'r ddiweddar Marion a'u partneriaid a'u plant. Estynnwn ein cofion diffuant atoch i gyd ac i'r teulu estynedig yn Llanrug ac Ynys Môn. Bu'r angladd yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug.

Prin wedi iddo symud i 14 Hafan Elan, bu farw George Evans (gynt o Westy'r Castell, Caernarfon). Gŵr annwyl Dee, yn dad, tad yng nghyfraith, taid a brawd parchus.

Arôlgwaeleddamflynyddoedd bu farw Allison, gwraig ffyddlon Ken (mab Dilys a'r diweddar Selwyn Jones, Hafan Elan) yn 48 mlwydd oed yn Dolafon, Cwm y Glo. Roedd yn fam hynod i Sioned a Ffion. Cydymdeimlwn yn arw iawn â'r teulu, Ken, Sioned a'i phartner, Rhys, 39 Glanffynnon; Ffion, ei rhieni, Dilys Jones a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr a cholled enfawr.

Yn annisgwyl ond yn dilyn cyfnod hir o waeledd, bu farw Bryn Evans, 4 Hen Ysgol, yn 50 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'i rieni, Bryn a Carol Evans, Dolafon, Cwm y glo, Cerie, Tomos, Sharon, Dion a Dylan a'r holl deulu. Colled enfawr i chwithau.

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Meira a Gwyn Williams, Pant y Celyn, Ffordd Rhyddallt, yn eu profedigaeth o golli tad annwyl Meira, sef Dafydd Wyn Owen, Rhosbodrual. Meddwl amdanoch yn eich colled.

Priodasau Ar 30ain o Fedi, priodwyd Iwan Parry Jones, Glanffynnon, mab Berwyn a Pat â Lauren Jordan yng Ngwesty Bron Eifion, Cricieth. Deallwn fod y diwrnod wedi bod yn fendigedig a dymunwn bob hapusrwydd i'r pâr ifanc.

Dydd Sadwrn, 14eg o Hydref, priodwyd Elin Dafydd, merch Dafydd ac Annwen Owen, 14 Bryn Moelyn ac Alun Gaffey o Fethel. Cynhaliwyd y gwasanaeth a'r wledd yn Nant Gwrtheyrn. Dymunir hir oes gyda'ch gilydd a phob hapusrwydd,. Mae Elin yn

ddiweddar wedi ei phenodi yn Ymgynghorydd, yn arbenigo mewn cyflyrau croen ac Alun yn adnabyddus iawn ym myd cerddoriaeth. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau mawr i Mrs Megan Owen, Nant y Glyn, ar ddathlu pen-blwydd arbennig wythnos diwethaf. Cafodd fynd i ben yr Wyddfa gyda'i chyfeillion. Falch o glywed eich bod wedi cael amser hynod.

Babi Newydd Llongyfarchiadau mawr i Gareth ac Amy, Tanycoed, ar enedigaeth Gwion Wyn Roberts. Mae Taid a Nain, Tecwyn a Flo Roberts wedi gwirioni ynghyd â'r teulu oll. Pob dymuniad da.

Diolchiadau Dymuna Ronnie a Doris Evans, Gwynfryn, 4 Ffordd Glanffynnon, ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau pell ac agos am yr holl ymweliadau, galwadau ffôn a chardiau yn dilyn eu damwain car yn ddiweddar. Mae pawb wedi bod yn hynod o ffeind. Diolch i Feddygon Waunfawr am eu gofal diflino. Mae'r cyfan wedi bod yn gysur mawr iddynt.

Llongyfarchiadau i'r criw sy'n cynhyrchu y rhaglen blant 'Deian a Loli'. Mae gwylwyr ifanc S4C wrth eu bodd yn gwyllo anturiaethau'r ddau gymeriad. Maent wedi ennill gwobr BAFTA Cymru am y rhaglen orau i blant. Rydym ninnau yn falch o lwyddiant Erin Alaw (Loli) sy'n byw yn Afon Rhos, Llanrug, a Moi Hallam (Deian) sy'n byw yn y Felinheli. Da iawn chi!

Llongyfarchiadau i Heledd ac Aaron, 3 Bryn Moelyn, ar enedigaeth eu merch fach yn ddiweddar. Mae Mr Alf Parry, 2 Bryn Heli wedi dod yn hen daid balch iawn. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Merched y Wawr Nos Fawrth, Hydref 10fed, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Bethanne. Cychwynnwyd y noson gyda Chân y Mudiad a Megan yn cyfeilio. Llongyfarchwyd Heulwen ar ddathlu pen-blwydd arbennig.

Dymuna Olwen, Linda ac Eirianwen ddiolch i bawb a gefnogodd y Bore Coffi Macmillan fore Gwener, Medi 29lin. Gwnaed elw sylweddol o £430. Derbyniwyd gair o ddiolch gan Tegwen Morris am y gefnogaeth i 'Dathlu'r Aur'. Cynhelir Cwis Cenedlaethol y Mudiad nos Wener, Tachwedd 10fed, ym Meifod, Bontnewydd. Cangen Llanrug sy'n gyfrifol am wobr raffl.

Cynhelir Ysgol Undydd y Dysgwyr ar Dachwedd 11eg yn y Ganolfan Gymraeg i Oedolion, Stryd y Deon, Bangor, rhwng 1.30 – 3.30. Mae'r dysgwyr yn gwerthfawrogi'n arw'r cyfle i sgwrsio drwy'r Gymraeg. Cyflwynwyd siec o £2,000, sef elw Ffair Haf a Distawrwydd Noddedig i'r Ganolfan Heneiddio'n Dda, 'Age Cymru Gwynedd a Môn'. Diolchir i'r canghennau am eu cefnogaeth. Darllenwyd llythyr o ddiolch i bawb a fu'n casglu arian o ddrws i ddrws i Sefydliad y Galon ym mis Mehefin. Cyfanswm Llanrug a Phenisarwaun oedd £1,401.65 – ymateb gwych.

Cynhelir y Ffair Aeaf ar Dachwedd 27ain a 28ain. Dyma'r testunau:

Crefft – oll gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng: Calendr Adfent; Aur, Thus, Myrr; neu Robin Goch.

Coginio: pot o jam – unrhyw ffrwyth a gellir addurno'r potyn.

Caniateir 2 ymgais ymhob dosbarth gan bob aelod. Mae ffurflenni cais ar gael yn y swyddfa ers mis Medi ac ar wefan Merched y Wawr.

Cerdyn Nadolig – cyfle i gynllunio cerdyn mewn unrhyw gyfrwng ar gyfer Nadolig 2018. Cynigir ffotograffiaeth yn ychwanegol eleni at y dylunio ynghyd â barddoniaeth gwreiddiol tu mewn. Rhaid i'r cardiau a'r enwau gyrraedd y Ganolfan Genedlaethol erbyn Rhagfyr 11 2017. Mae tua 40,000 o gardiau yn cael eu hargraffu yn flynyddol.

Ein gŵr gwadd oedd Siôn Emyr a fagwyd yn Llanrug ond

erbyn hyn wedi ymgartrefu yn y Waunfawr gyda Elin, ei wraig a'u plant, Lois Eluned ac Osian Llewelyn.

Graddiodd Siôn mewn Iechyd yr Amgylchedd yng Nghaerdydd a chymhwysu wedyn fel Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Siartredig. Mae bellach yn aelod o Dim Gwarchod y Cyhoedd hefo Cyngor Sir Gwynedd, yn delio'n bennaf efo diogelwch bwyd. Testun ei sgwrs oedd 'Cyfrinachau Bwyd'. Yn ei ffordd hwyliog a dihafal dangosodd luniau o enghreifftiau o fwydydd a diodydd y dylem edrych yn fanwl ar label y cynhwysion wrth siopa.

Tynnwyd ein sylw at reoliadau cynhyrchion jamiau, cigoedd o bob math, coco a siocled, siampen, te, pob math o bysgod a ffrwythau hyd yn oed. Yn aml iawn mae'r cynnyrch rhataf yn well na'r drutaf.

Cafodd pob un o'r aelodau fach bach siopa 'Prynwch efo hyder' a 'Gymeradwywyd gan Safonau Masnach'. Diolchwyd i Siôn gan Bethanne a chyflwynodd Siôn ei gyfraniad ariannol i Banc Bwyd Caernarfon.

Enillwyd y raffl gan Myfanwy, Helen a Nan a pharatowyd y baned gan Jean, Margaret Christian a Megan. Bydd angen llenwi'r fwydden Nadolig a dod â'r arian i Carys mis nesaf os gwelwch yn dda.

Ein gŵr gwadd ym mis Tachwedd yw Huw Price Hughes yn sôn am Ysbrydion.

Plaid Cymru

Enillwyr Clwb Cant Mis Hydref

1..Gwyn Hefin Jones, Brynrefail

2..Rolant Wynne, Llanrug

Cynhelir Ffair Grefftau yn Y Caban, Brynrefail ar benwythnos olaf Tachwedd: Sadwrn 25 a Sul 26 rhwng deg y bore a phedwar y prynhawn. Crefftau amrywiol gan grefftwyr lleol, gan gynnwys anrhegion delfrydol ar gyfer y Nadolig.

Cyngerdd Adfent yng Nghapel y Rhos

Nos Sul, Tachwedd 26ain am 7 o'r gloch

Côr Dre – arweinydd Siân Wheway

gydag eitemau amrywiol gan bobl ifanc lleol

Tocyn £5 a phlant £1

Yr elw at gronfa'r capel

Oedfaon mis Tachwedd

Sed: Y Gweindiog, Y Parch Marcus W. Robinson

12fed: Y Barch Glenys Jones, Pwllheli

19eg: Y Gweinidog

26ain: Mr Donald Pritchard, Llannerchymedd

Bore Coffi Mor braf oedd gweld y pentref cyfan yn dod at ei gilydd fore Sadwrn, Medi 30, yng Nghanolfan y pentref, i gynnal bore coffi er budd Elusen Canser Macmillan. Estynnwyd gwahoddiad i gynrychiolwyr o holl glybiau a chymdeithasau'r pentref i gynorthwyo gyda'r trefniadau a chafwyd cymorth hael a pharod hefyd gan bob busnes yn y pentref. Rydym yn ddiolchgar iawn i chi i gyd. Rhaid nodi'n arbennig gyfraniad aelodau clwb ieuenctid y pentref a aeth o gwmpas y pentref ar ddwy noson wlyb a diflas i ddosbarthu taflenni ac a fu'n gyfrifol hefyd am drefnu'r stondin tombola. Diolch hefyd i gynifer o unigolion hefyd, a roddodd gyfraniadau ariannol a rhoddion at y tombola a'r raffl, help gyda phosteri a llu o gacenni blasus. Diolch yn fawr i'r gwirfoddolwyr a fu'n cynorthwyo ar y diwrnod ac i bawb a ddaeth trwy'r drws i gefnogi'r achos! Roedd prysurdeb a bwrlwm mawr yn y Ganolfan a threfnwyr yr achlysur yn hynod o ddiolchgar am gefnogaeth y trigolion lleol. Roedd yna sgwrsio a chymdeithasu uwchben panad a chacen, roedd yna drïo lwc yn y tombola a'r raffl yn y neuadd fawr, a'r plant yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau a drefnwyd ar eu cyfer yn y neuadd fach. Casglwyd dros fil o bunnoedd tuag at elusen Macmillan, a bydd y gronfa ar agor tan ddiwedd Hydref. Y gobaith yw y bydd y bore coffi yn drefniant blynyddol o eleni ymlaen er mwyn cefnogi gwahanol achosion da.

Yn ogystal â'r bore coffi yn y Ganolfan cynhaliodd staff y dafarn fore coffi Macmillan ar y bore Gwener a fu hefyd yn llwyddiannus iawn.

Merched y Wawr Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Iau, Medi 28, noson gymdeithasol anffurfiol gyda lluniaeth wedi ei darparu gan y pwyllgor. Cafodd ein llywydd, Heulwen Huws, gyfle i groesawu pawb yn ôl wedi'r haf ac ambell aelod newydd hefyd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y Ganolfan nos Iau, Hydref

26, am 7.30 pan fydd Eirian Pritchard o Gaernarfon yn arddangos ei gwaith crefft ac yn sôn am ambell syniad ar gyfer crefftau Nadoligaidd. Nos Iau, Tachwedd 30, fydd noson ein swper Nadolig yn Bron Menai Caernarfon. Croeso mawr i aelodau newydd.

Clwb Bowlio y Pentref Cynhaliwyd cystadlaethau mewnlol y clwb yn ddiweddar a'r canlyniadau oedd:

Cwpan Garej Pant y Waun (merched)

1af: Valmai Williams; 2: Ann Lloyd Jones.

Cwpan y Llywydd (dynion)

1af: Mal Burns; 2: Ryan Burns

Tarian er cof am T.A. Thomas

1af: Mal; 2il: Emyr Evans

Cwpan Garej Gwalia (dwbl)

1af: Emyr a Ryan; 2il: Mal a Pat Parry

Sefydliad y Merched Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Medi croesawodd y Llywydd yr aelodau yn ôl wedi'r gwyliau. Cydymdeimlodd â Mair Williams a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei gŵr, Gwilym. Llongyfarchodd Pat ar lwyddiant ei hŵyr yn yr arholiadau TGAU. Y gŵr gwadd am y prynhawn oedd Gareth Jones o Lanrug sydd yn gweithio gyda 'Gwylïo Adar Rhyngwladol'. Mae o wedi bod yn gweithio mewn gwledydd dros y byd ac eglurodd am y gwahanol adar yr oedd wedi eu gweld a'r ffordd yr oedd yr adar yn cael eu dal a'u trin.

Diolchodd Rosie iddo am y sgwrs. Enillydd raffl, rhoddedig gan Annie oedd Ann. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad ar y Sed o Hydref. Y wraig wadd oedd Elinor Gwyn o Rostyfan oedd wedi bod yn gweithio i Cyfoeth Naturiol Cymru. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gyda lluniau ganddi am yr amser y bu yn cerdded llwybrau arfordir de a gogledd Cymru ac yn cysgu'r nos mewn pabell fechan iawn! Eglurodd sut yr oedd y llwybrau yma wedi cael eu hagor a'r gofal sydd ohonynt. Diolchodd Rose Ann iddi. Enillydd y raffl, rhoddedig gan Rose Ann, oedd Annie.

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Medi oedd: £30: Ms Rhian Griffith, 6 Tŷ Hen; £20: Mrs S.M. Parkinson, Gwynfa; £10:

Mr Duncan Brown, Gwelfor, Ffordd Ceunant.

Capel y Waun Bore Sul, Medid 24, cynhaliwyd Gwasanaeth Teulu o Ddiolchgarwch o dan ofal Mrs Gwenda Griffith. Gwnaed apêl i'r aelodau a thrigolion y pentref i gyfrannu tuniau bwyd ar gyfer eu rhoi i'r Banc Bwyd yng Nghaernarfon. Roedd yr ymateb mor dda fe drafodwyd a threfnwyd i wneud casgliad fel hyn yng ngwasanaeth y capel ar y Sul cyntaf o bob mis. Mae cyfle i ni i gyd gyfrannu. Dymuna'r capel ddiolch i bawb am du haelioni.

O hyn allan fe adwaenir yr eglwys fel Capel y Waun yn hytrach nag Eglwys y Waun. Mae'r swyddogion ac aelodau y capel yn llongyfarch Paul Evans ar gael ei ordeinio fel blaenor gan y Parch Eric Jones, Llywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd, mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel Jeriwsalem, Bethesda, ar 19eg o fis Medi.

Llongyfarch Mae Tony a Helen Brown, 2 Bryn Golau, a'r teulu yn falch iawn o lwyddiant eu merch, Rosie, ac am ei llongyfarch ar gael ei phenodi yn athrawes yn un o ysgolion cylch Wrecsam. Mae hefyd yn weithgar yn astudio cwrs arall er mwyn sefyll arholiad ac ennill gradd uwch.

Dymuniadau gorau i ti, Rosie.

Ymdddeoliad Dymunwn ymdddeoliad hapus i'n Cynghorydd Sir, Edgar Owen, o'i swydd gyda chwmni R&I yng Nghaernarfon ble bu'n gweithio am nifer fawr o flynyddoedd.

Adref o'r Ysbyty Croeso adref o'r ysbyty i Roy Jones, Cynefin, a Liz Daniels, Stad Tŷ Hen, wedi iddynt dderbyn llawdriniaethau. Mae'n dda gweld y ddau allan o gwmpas y pentref yn manteisio ar y tywydd sych i gael gwella a chryfhau.

Wedi anffawd yn ei chartref cymerwyd Mrs Doris Roberts i'r ysbyty ond mae'n dda cael dweud ei bod wedi dod ati ei hun ac yn gwella. Cofion cynnes atoch, Doris. Cymerwch ofal.

Anfonwn ein cofion cynnes a'n dymuniadau gorau am wellhad buan i Alma Jones, Tan-y-Fron, ac i Eurig Wyn, Y Frenni, wedi i'r ddau gael eu taro gan gar tra ar eu gwyliau yn Ffrainc. Roedd yn dipyn o fraw i Gill a Rob weld peth fel hyn yn digwydd o flaen eu llygaid. Ond, dolch byth, mae'r pedwar yn ôl adref yn ddiogel erbyn hyn ac yn gwella.

Priodas Llongyfarchiadau i Efan ac Emma, Stad Glyn Afon, ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Estynnwn ein dymuniadau da ichi.

Gwasanaethau Capel y Waun am fis Tachwedd


Sed: Mr Arawn Glyn, Y Ffor

12fed: Mr Dewi Jones, Pwllheli

19eg: Mr John Roberts, Llanfairpwll

26ain: Mr John Roberts

"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNNOD HUNANARLWYO"



Ysgol Waunfawr

Rydym yn dymuno'n dda i'r 15 cyn ddisgybl sydd wedi dechrau yn Ysgol Uwchradd Brynrefail, Ysgol Syr Hugh Owen ac Ysgol Friars.

Plant Newydd a Staff

Estynnwn groeso arbennig i blant y dosbarth Meithrin. Maent wedi ymgartrefu'n hapus yn ein plith ac yn blant da iawn.

Estynnwn hefyd groeso cynnes iawn i.

- Aron blwyddyn 4 a Sioned ei chwaer ym mlwyddyn 2.
- Mr Michael Downey yn athro yn nosbarth Mynydd Grug.
- Anti Eleri syn gymhorthydd 1:1 ym mlwyddyn Derbyn ac Anti Ffion sydd ar brofiad gwaith o Goleg Menai. Gobeithio y byddant i gyd yn hapus iawn yn ein plith.
- Croesawn hefyd Nia Griffith i'w swydd fel ysgrifenyddes yr ysgol a chlerc y Llywodraethwyr Gallwch gysylltu â hi ar y cyfeiriad ebost NiaGriffith@gwynedd.llyw.cymru.

Diwrnod Roald Dahl

Dathlwyd Diwrnod Pen-blwydd yr awdur Roald Dahl ddydd Mercher, Medi y 13eg, ac roedd hi'n hyfryd gweld y plant wedi gwisgo fel cymeriadau o'i lyfrau.

Capteiniaid y Tai

Etholwyd y canlynol o flwyddyn 6 yn gapteiniaid ac yn is-gapteiniaid i'r timau gogyfer a'r flwyddyn i ddod. Capteiniaid Eilio = Elain a Gruff Llwyd. Capteiniaid Cwellyn = Mali a Gruff Mei. Capteiniaid Gwyrfaï = Ellie a Ben.

Y Cyngor Ysgol.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol am gael eu hethol ar y Cyngor Ysgol:

Llio a Tyrese o flwyddyn 3
Cadi Lois a Harri o flwyddyn 4
Bela ac Osian o flwyddyn 5
Ellie a Gruff Mei o flwyddyn 6

Sgwad Sgwennu Ysgolion Gwynedd

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Gruffydd Llwyd bl 6 am gael ei ddewis i fod yn aelod o Sgwad Sgwennu Gwynedd. Dewiswyd 20 o blant o flwyddyn 5 a 6 Ysgolion Cynradd Gwynedd i fod yn aelodau o'r sgwad.

Gwersi Nofio a Thennis

Mae 19 o blant Blwyddyn 5 wedi cychwyn ar eu gwersi Gymnasteg tra bod Blwyddyn 3 ac 4 yn derbyn gwersi nofio a Blwyddyn 5 yn derbyn gwersi tenis yng Nghaernarfon. Bydd plant blwyddyn 1 a 2 yn cychwyn ar eu gwersi nofio ddydd Mercher ar ôl yr hanner tymor.

Ailgylchu dillad

Diolch i bawb am gefnogi yr ymgyrch ailgylchu dillad. Derbyniodd yr ysgol tua £150.00 gan yr Antur dros y flwyddyn ddiwethaf.

Noson Ddarllen i Rieni y Cyfnod Sylfaen

Cynhaliwyd Noson Ddarllen lwyddiannus iawn ddechrau mis Hydref. Cafwyd cyflwyniad gan Mrs Rhian Evans o Lyfrgell Caernarfon yn esbonio yr hyn â gynigir i rieni a phlant y Cyfnod Sylfaen. Rhoddwyd cyflwyniad gan Mrs Ceri Evans ar y gyfres ddarllen TRIC A CHLIC, cyflwyniad gan Miss Sioned Hughes ar y gyfres Aled Afal a chyflwyniad ar y Profion Darllen Cenedlaethol gan Mrs Gwenan Williams. Bydd noson i rieni CA2 ar Dechnoleg Gwybodaeth cyn y Nadolig. Byddwn yn rhoi cyflwyniad ar y defnydd o 'apps' a'r manteision o ddefnyddio Hwb Cymru. Hwb yw'r llwyfan dysgu Cymru gyfan a phlatform dysgu ar-lein.

Ymweliadau Addysgol Tymor yr Hydref 2017

Cafwyd gweithgareddau diddorol yn ymwneud â'n themâu hanes yn yr ysgol yn ystod yr hanner tymor.



Diwrnod Pyjamas Dosbarth Mynydd Mawr

• Thema Dosbarth Mynydd Mawr y tymor hwn oedd 'Pan af i gysgu' a chawsant fwynhau diod o Siocled Poeth ar ddiwrnod dod i'r ysgol mewn pyjamas!

• Bu Dosbarth yr Wyddfa a Chefn Du yn ymweld â'r Ysgwrn, cartref Hedd Wyn, a Phlas Ednowain Trawsfynydd. Bu'r ddau ddosbarth yn yr Amgueddfa Rhyfel ym Manceinion hefyd.

• Bu Cwmni Mewn Cymeriad yn perfformio hanes Hedd Wyn i'r Adran Iau a bu Mr Keith O'Brien o Drawsffynedd yn adrodd hanes codi cofeb i'r Cymry a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn Fflandrys Gwlad Belg. Cafwyd cyflwyniad diddorol iawn ganddo.

• Daeth Gwenda Roberts o'r Archifdy yng Nghaernarfon i roi sgwrs i flwyddyn 2 am hen deganau, roedd y disgyblion wedi eu cyfareddu gyda'r hen ddoliau a'r topiau pren.

• Treuliodd bl 3 a 4 ddiwrnod yn Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy yn dysgu am fywyd yn Oes Fictoria. Cawsant wisgo a chael gwers yn null y cyfnod ac ymweld â bwthyn Highgate.

• Daeth Mr John Dilwyn o'r Archifdy yng Nghaernarfon i roi sgwrs i flwyddyn 6 a oedd wedi bod yn astudio cyfnod yr Ail Ryfel Byd a chafwyd cyfle i weld artiffactau diddorol o'r cyfnod.

Gweithgareddau Hybu Addysg Gorfforol

• Bydd Tîm Rygbi'r ysgol yn

cystadlu yn Nhwernamaint Rygbi Clive James ar y Morfa yng Nghaernarfon cyn yr hanner tymor. Dymunwn yn dda iddynt.

Cyfrif Trydar yr ysgol

• Cofiwch hefyd ddilyn digwyddiadau yr ysgol ar ein cyfrif 'Trydar' (Twitter) @ysgolwaunfawr Bydd yr athrawon dosbarth yn anfon lluniau a gwybodaeth yn wythnosol, fel eich bod yn cael blas o'r gweithgareddau a ddigwyddodd yn y dosbarth dros yr wythnos.

Cymdeithas Rieni a Chyfeillion yr ysgol

• Trefnir Noson Rasys Ceffylau yn y Dafarn nos Sadwrn, Hydref y 21ain. Dewch i gefnogi, i gymdeithasu a chael hwyl.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof:

• Cynhelir Nosweithiau Rhieni blwyddyn Derbyn i flwyddyn 6 cyn yr hanner tymor. Bydd Nosweithiau i'r Rhieni Meithrin ym mis Tachwedd.

• Ddydd Sadwrn, Hydref yr 28ain, cynhelir Ras Eryri. Rydym angen gwirfoddolwyr i rannu diod a bisgedi ar gyfer y rhedwyr.

• Byddwn yn cefnogi Ymgyrch y Plentyn eleni eto. Cesglir y bocsys Tachwedd 22ain.

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—


Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

Hen Siopau a Busnesau Waunfawr

Anodd credu heddiw fod dros 40 o wahanol siopau a busnesau yn ardal y Waunfawr ar un amser. Dyma restr o enwau rhai ohonynt.

Siopau Groser, Nwyddau a Mân Bethau
Bryn Pistyll (Antur Waunfawr heddiw)
Gwerthu nwyddau o bob math ar gyfer y teulu, fel dillad, esgidiau, peilliad a blawd anifeiliaid. Hefyd carwyd nwyddau o gwmpas yr ardal gyda car a cheffyl.

Jenny Jones, Bryn Eithin:
Siop fechan yn y gegin oedd hon.
Siop Ann Hughes, Bryn Eithin:
Gwerthu mân bethau.
Cae Steel (Tŷ Becar)
Pobi a gwerthu bara.
Yr Hen Siop (Siop Brwclyn wedyn):
Nwyddau a mân bethau.
Maelfa Eryri:
Wedi marwolaeth y perchennog, Robert Owen, Glan Gwyrfai, cymerwyd y siop drosodd gan Mrs Nel Jones, Gwylfa.
Siop Anti Leus, Bod Arthur:
Yn ogystal â gwerthu melysion a mân bethau, byddai 'Anti Leus' yn gwneud crempogau. Byddai'r plant, ac yn enwedig y faciwis, yn mwynhau rhain yn fawr.
Siop Bren:
Siop Williams ger y Post ('Wilias Shop Bren'), ac yn ddiweddarach Siop Ted Jones, oedd yn gwerthu gwahanol nwyddau.
Owen Lloyd Jones:
Gwerthu nwyddau a pheilliad, a chario allan gyda car a cheffyl.
Catrin Gruffydd:
Ar wahân i werthu melysion a mân nwyddau, byddai Catrin Gruffydd yn pobi bara.
Tomos Wiliam:
Melysion a mân nwyddau.
Mrs Laura Roberts, Teras Glyn Afon:
Melysion a gwahanol nwyddau.
Miss Owen, Teras Glyn Afon:
Mân nwyddau.
O.R. Williams, Liverpool House:
Gwerthu nwyddau, blawdiau a glo, ac hefyd car a cheffyl yn cario allan. Wedi hynny, dechrau rhedeg bysys o'r Waun i Gaernarfon o dan yr enw 'Royal Red'. (Whiteways yn ddiweddarach).
Humphrey Jones, Tŷ Hen:
Ar wahân i'r blawd a werthwyd, roedd yn y tŷ bopty mawr ar gyfer pobi bara.
Bryn Gwynedd:
Becws Popty Mawr.
Mr Roberts, Post Caeathro:
Siop nwyddau, blawdiau a glo, oedd hefyd yn siop farbwr. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, defnyddiwyd y siop fel canolfan yr Home Guard.
R. Williams, Ty'n Clwt:
Siop fechan o fân bethau. Symudwyd y busnes wedyn i dŷ yng Nghroesywaun.
H. Roberts, Ty'n Llain:
Nwyddau, blawdiau a glo. Car a cheffyl yn cario allan.
Siop Jaci Owen:
Cwt sinc yn Nhŷ'r Efail Croesywaun, oedd ar un amser yn siop farbwr a chwt crydd. Catrin Edwards oedd yn rhedeg y siop cyn hynny.
Siop John Benjamin ('Joni B'):
Siop o wahanol nwyddau, ar y safle lle roedd siop a becws J. Awstin Jones wedyn.
Siop Ucha:
Dwy chwaer ('y ddwy Miss Owen') fyddai'n rhedeg y siop fach brysur yma yn ardal y Groeslon o'r pentref. Roedd gan y chwiorydd ddau gar a cheffyl ar gyfer cario nwyddau o gwmpas yr ardal. Wedi hynny, Evan Griffith ('Ifan Siop Ucha') fu'n ei rhedeg am flynyddoedd.
Siop Gwelfor:
Er mai Siop John 'R' fyddai pawb yn galw Siop Gwelfor, credir mai ei fam oedd yn ei rhedeg am gyfnod. Perchen y siop cyn hynny oedd Humphrey Williams, a fu ar un amser yn cadw Siop Goch, Pwllheli.
Bob Roberts, Croesywaun:
Gwahanol nwyddau a mân bethau.
Y Post:
James Llewelyn Williams ('Jim Post') fu'n rhedeg y Post am gyfnod, ac yn ddiweddarach, John a Mair Cotton.
John Awstin Jones, Penrhos:
Becws a siop groser ynghanol y pentref. Roedd yr hen fecws cynnar yn Nhŷ Ucha'r Ffordd, lle byddai'r Methodistiaid yn cynnal eu gwasanaethau (1750-1784). Ym 1947 adeiladwyd becws newydd dros y ffordd ar dir Penrhos. Ym mis Ionawr 2015, difrodwyd y becws, oedd wedi bod yn wag ers blynyddoedd, mewn tân mawr.
Arvon House:
Siop groser a gwahanol nwyddau Jini Parry yn ardal y Groeslon.
E.W. Jones (Siop Wyn):
Siop groser dros y ffordd â'r hen syrjeri yng Nghroesywaun.
H.M. Thomas (Siop Huw Moi):
Siop groser a melysion ar y safle lle mae garej Pant Waun heddiw.

Cigyddion
Ardref:
Siop J.R. Jones (Johnny bach Ty'n Gadlas) a hynny cyn y Rhyfel Cyntaf. Ymfudodd wedyn i'r America.
Penrhos:
Siop groser, cig a physgod o eiddo gŵr o'r enw John Jones, oedd hefyd yn berchennog ar siop ym Meddgelert. Roedd ganddo ladd-dy ym

Mhenfforddfangor, sef y caeau tu cefn â Phenrhos, ar gyfer llad moch ac ŵyn. Cyn hynny, roedd ganddo ladd-dy yn yr hen iard Hafan, ger Maes Bach.
Richard Griffith ('Dic Tan Rallt'):
Siop sinc dros y ffordd â'r Post oedd hon. Byddai Richard Griffith hefyd yn lladd moch ac ŵyn yn hen ladd-dy Penfforddfangor. Wedi hynny bu'n siop edafedd ac yn ddiweddarach siop radio a theledu.
Hyfrydle:
Siop W. Williams, ac wedyn William Gray Williams, y mab. Byddent yn lladd y moch a'r ŵyn yn iard Cae Glas, dros y ffordd â'r siop.
Peter Evans (Pitar):
Siop fechan yng Nghroesywaun. Cario allan gyda fan fechan.
J.H. Williams (Johnny Pant Defaid):
Bwtsiar a chanddo ladd-dy ym Mhant Defaid, yn ardal y Groeslon.
R. Williams, Hafod Uchaf:
Gwerthu cig o gwmpas yr ardal efo trol a cheffyl.

Dilladau ac Esgidiau
Manchester House:
Siop E. Evans, teiliwr.
Efan Jones, Goleufryn (Ifan Collfryn):
Siop yn gwerthu dillad ail law y milwyr ar ôl y rhyfel cyntaf.
Maxwell, Crydd:
Gweithdy crydd ger bryn Pistyll.
Pant Afon:
Siop esgidiau Owen Jones, ac yn ddiweddarach siop baent Gwilym Edwards, oedd hefyd yn organydd yng Nghapel Bethel y Waun.

Barbwyr
Siop Johnny Rowlands:
Cwt pren ger yr hen fecws Tŷ Ucha'r Ffordd oedd hwn. Lle diddorol iawn yn ei ddydd, gyda llawer o sgwrsio a thynnu coes yno.
Cwt Shefio Sion Go:
Ar wahân i'r shefio, roedd Sion Go hefyd yn bostmon.
Hefyd yr adeg honno byddai llawer yn torri gwalltiau ei gilydd amser cinio yn y chwarel, neu adref gyda'r nos.
Barbwyr eraill yn ddiweddarach oedd Richard 'Dic' Oliver, Pen-y-Clip a Bill Owen, Ael-y-Bryn.

Seiri Coed
Robert Williams:
Crefftwr arbennig o'r hen drefn a'i weithdy yn yr Hen Ysgol Croesywaun.
H. Williams:
Gweithdy ar y safle lle mae garej Pant Waen heddiw.
Thomas Fron Goeddiog:
Gweithdy yng Nghroesywaun, oedd yn ddiweddarach yn siop a gweithdy cwmni adeiladu Thomas & Thomas.
Thomas & Thomas:
Cwmni adeiladu gyda iard a gweithdy yng Nghroesywaun. Ar wahân i wahanol weithgareddau fel gwaith coed ac adeiladu, byddent hefyd yn gwneud eirch. Roedd yno hefyd siop fechan ar gyfer gwerthu papur wal a phaent, ymysg amryw o bethau eraill fel hoelion, sgrïws a choed tân.
Huw Roberts, Bryn Goleu:
Gwnaeth Huw Robaitsh gannoedd lawer o eirch. Dyma brisiau rhai ohonynt yn ôl ei filiau:
1902-03: Coffin = £3.5s0d. With brass fittings = £4.10s0d. Children = £1.0s0d
1907-08: Coffin = £3.5s.0d. Oak with brass & shroud = £4.10s0d
1913-15: Coffin in Pitch Pine = £4.0s0d
1922-24: Coffin = £8.0s0d. In Pitch Pine = £8.10s0d

Siopau Sglodion
Bwlch-y-Ffordd:
Gwnaethpwyd y sglodion yno mewn sosban enfawr.
Mrs Hughes, Llys Meredydd:
Sgalops a sglodion mewn papur newydd am naw ceiniog.
Siop Winnie a Gwyrfai Jones, Gwyndy:
Grôt am sglodion a chwe cheiniog am Vimto.

Marsiandiwyr Glo
John Humphries:
Gwerthu glo yn yr hen stesion Bryn Eirion. (Ger Tafarn Snowdonia Parc heddiw).
Robert Ellis Jones, Rhoslan:
Cario glo o gwmpas yr ardal gyda lori Morris Commercial lliw coch.
Robert Lewis Parry, Teras Eilian:
Cario glo gyda lori Morris Commercial lliw glas.
Gwilym Lloyd Jones, Hafan:
Cario glo gyda loriau lliw gwyrdd.
Yn ddiweddarach, Arthur Griffiths, Eirianallt, ac Evie Davies, Tan-y-Graig, Ceunant.

Efail y Gof:
Lle eithriadol o ddiddorol, lle byddai ceffylau'r cylch yn dod i gael eu pedoli. Roedd yr hen efail drws nesa i'r hen Garej Non yng Nghroesywaun (Snowdonia Fire Protection heddiw). Adeiladwyd yr efail newydd yn y pumdegau, lle bu Owen Owen (Owi go) a'i fab Emrys yn gwasanaethu am flynyddoedd
Gwilym Morris Jones

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau

Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

Cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo a gynhaliwyd ar y 19fed o Fedi 2017

Heddlu Gogledd Cymru

Cafwyd gyflwyniad gan yr Arolygydd Owain Davies a'r Rhingyll Danna Baxter o Heddlu Gogledd Cymru ar y sefyllfa blismona gyffredinol yn yr ardal. Nodwyd mai hyd yma fod 31 o droseddau wedi eu cofnodi yn yr ardal y flwyddyn yma, gyda 27 yn yr un cyfnod llynedd. O'r rhain roedd nifer ohonynt yn achosion domestig.

Adroddwyd ymhellach fod ffigyrau Llanrug a'r ardal yn isel iawn i gymharu a llefydd eraill sydd yn esbonio efallai pam nad oes presenoldeb heddlu mor aml yn Llanrug.

Adroddwyd fod problemau wedi bod ar ddechrau gwyliau Haf yr Ysgol ond fod hyn i weld wedi distewi. Pwysleisiodd yr Heddlu fod angen adrodd am y digwyddiadau wrthynt neu nad ydynt mewn sefyllfa i ddelio a hwy.

Ar ôl y cyfarfod, penderfynwyd i gysylltu a Chomisiynydd yr Heddlu i erfyn am fwy o gefnogaeth ar gyfer plismona'r ardal.

Cyfleusterau i'r ifanc

Derbyniwyd adroddiad gan Gynrychiolwyr yr Ieuenctid ar beth fyddai plant Ysgol Brynrefail yn dymuno gael yn Llanrug. Nodwyd nad oedd y mwyafrif o'r bobl ifanc yn dymuno cael parc sgelfrio, ond mai cae "astro" fyddai'n dderbyniol.

Penderfynwyd trefnu i gael holiadur gymunedol yn y dyfodol i weld beth yw dymuniadau trigolion Llanrug, gan ddilyn yr un patrwm a Chwm y Glo, fel y gellid ceisio am grant os byddai rhywbeth penodol yn dod allan o'r ymatebion.

Cytunwyd ar is-bwyllgor o 6 i awgrymu cwestiynau ar gyfer yr holiadur.

Llwybrau cyhoeddus

Adroddwyd fod y llwybrau o Allt Goch i Bwlch ac o Ffordd yr Orsaf i gae chwarae Nant y Glyn angen eu torri. Adroddwyd ymhellach fod problem gyda cwn ar rai o'r llwybrau a fod pont droed wedi ei gosod i groesi'r ffôs o Glanffynnon i'r llwybr troed.

Penderfynwyd gofyn i'n contractwr dorri'r llwybrau ac i gyfeirio'r broblem cwn at Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd. Nodwyd y gallai'r bont bren bod yn lithrig pan yn wlyb a penderfynwyd cael gorchudd "mesh" arni.

Y Fynwent

Nodwyd fod y mater o gyfraniad y Cyngor tuag at dorri gwair yn fynwent yr Eglwys yn Llanrug yn parhau. Roedd y Clerc yn

anesmwyth i dalu arian oni bai fod y Cyngor yn cael cadarnhad o'r trefniadau a gyda chais gan yr Eglwys am y cyfraniad.

Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gysylltu a'r Rheithor ac un o'r wardeiniaid.

Polisi Iaith y Cyngor

Nodwyd fod yr aelodau wedi cael copi o bolisi drafft arfaethedig am sylwadau a fyddai'n cael eu trafod yng nghyfarfod mis Hydref.

Cais Cynllunio

Doedd dim gwrthwynebiad i gais am estyniad ac i ail drefnu'r Safle Carafannau Teithiol Awdurdodedig ar Dir Cil y Bont, Crawia, Llanrug

Trafodwyd gais cynllunio arfaethedig am ddatblygiad mawr ar dir Plas Tirion, Llanrug. Nodwyd fod yr aelodau wedi cael copi o'r cynllun a fod asiant ar ran yr ymgeiswyr wedi anfon y wybodaeth allan am sylwadau'r Cyngor Cymuned cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Ar y cyfan nid oedd gwrthwynebiad i'r cais, ond teimlai'r Cyngor na ellir roi barn ffurfiol heb weld y cais llawn. Fodd bynnag, fe wnaethpwyd y sylwadau canlynol a byddai'r Clerc eu hanfon at yr asiantwyr.

a) Sicrhau fod y trafndiaeth i'r safle yn osgoi adegau pryd mae plant yn mynd i'r Ysgol ac yn dod adref.

b) Sicrhau fod sŵn o'r safle yn cael ei gadw dan reolaeth.

c) Sicrhau fod arogl yn cael ei reoli rhag effeithio ar drigolion cyfagos.

Coed wedi eu difrodi ar gaeau chwarae Pwll Moelyn a Nant y Glyn

Adroddwyd am ddifrod a wnaethpwyd ar y meysydd chwarae ar ddechrau gwyliau'r Haf. Ymysg y difrod a achoswyd roedd dwy goeden gyda'r rhisgl wedi ei naddu i ffwrdd ac mae'n debyg bydd y coed yn marw. Roedd cwyn hefyd am goeden sydd ar Nant y Glyn yn tyfu drosodd i'r cae chwarae a fod caniatâd wedi ei dderbyn gan berchennog y tir i'r Cyngor ei thorri i lawr. Penderfynwyd cael prisiau am dorri'r coed.

Ar ddiwedd y cyfarfod, llongyfarchwyd y Clerc ar ei lwyddiant diweddar yn cwblhau cwrs CiLCA, sydd yn gwrs proffesiynol cydnabyddedig ar gyfer Clercod Cyngorau Cymuned a Thref, a nodwyd mai ef oedd y cyntaf i wneud y cwrs yma drwy gyfrwng y Gymraeg.

POSH PAWS 

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliajposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

HUW OWEN

PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL

22 BLWYDDYN
O BROFIAD

Ffôn- 01286 677668
Symudol- 07940023159

Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG

Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams

London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST

MYNWCH Y GORAU DEWCH ATOM NI!!

(01286) 673574

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cofnodion Cyfarfod y Sed Fedi 2017

Cynghorwyr Cymuned Llanddeiniolen

Bethel: Cynghorwyr Jane Pierce, Richard Ll. Jones, Gareth Wyn Griffiths a Sion Jones

Brynrefail: Martin Davies

Penisarwaun: Cynghorwyr Phyllis Ellis ac Aled Green

Deiniolen: Cynghorwyr Idris Thomas, Elfed Wyn Williams a Emma Chappell 1 sedd Wâg

Dinorwig: 1 sedd wâg

Clwt y Bont: Cynghorydd Gwawr Wyn Roberts

Cydymdeimlwyd a'r cynghorydd R. Hefin Williams, o golli ei fam, Mrs Eirlys Williams.

Rydym yn falch iawn o lwyddiant Emma Chappel o Ddeiniolen a Llongyfarchiadau iddi ar ennill gwobr Dysgwr y Flwyddyn yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Yn yr un modd rydym yn llongyfarch Lauren Oliver o Penisarwaun ar ennill gwobr Ysgrifennu Llythyr gwadd i ddysgwyr yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

LLongyfarchiadau hefyd i Mrs. Jennie Wynne Williams, Deiniolen am dderbyn gwobr anrhydedd am ei gwaith gyda gofal yr henoed.

Cyflwyniad gan Arfon Hughes a Dylan Owen.

Croesawyd Mr. Arfon Hughes a Dylan Owen, Hwylswyr Tai Gwledig i roi adroddiad ar Arolwg Anghenion Tai yn y gymuned.

Diolch i bawb o'r ardal a wnaeth yr ymdrech i lenwi yr holiaduron er mwyn galluogi a hwyluso yr arolwg o anghenion tai yn yr ardal. Cafwyd adroddiad cynhwysfawr ac esboniad o'r holl adroddiad. Bu cyfle i sesiwn gwestiwn ac ateb. Y cam nesaf fydd cynnal diwrnod neu sesiwn galw i mewn agored o amgylch yr ardal. Awgrymwyd i bawb ddarllen yr adroddiad cyn trafod a penderfynnu ar ddyddiad a lleoliad yn y cyfarfod nesaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau am eu Gwaith trylwyr.

Cofnodion Cyfarfod Sed Gorffennaf 2017

Derbyniwyd y Cofnodion yn gywir.

Materion o'r cofnodion

Golau Tan Y Gaer – Mae'r golau wedi ei osod bellach.

Arwydd Ysgol ac 20mya Rhiwlas – Derbyniwyd ymateb gan yr adran drafnidiaeth yn datgan fod digon o arwyddion ysgol ac ni ellid cefnogi'r cais am arwydd ychwanegol. Mae arwyddion cyflymdra 20 yn cael eu gosod ar hyn o bryd ar y ffordd wrth yr ysgol.

Diogelwch adeiladau yn dilyn Tân Grenfell – Derbyniwyd llythyr gan Carl Sargent ac Adran Tai Cyngor Gwynedd yn datgan eu bod yn cydweithio ac awdurdodau lleol a pherchnogion a rheolwyr adeiladau i sicrhau fod darlun llawn a chywir ynghylch diogelu unrhyw drychineb fel Grenfell eto. Nid yw Cyngor Gwynedd wedi canfod unrhyw dystiolaeth fod y deunydd ACM wedi ei osod o fewn y sir hyd yma.

Lon Cyttir, Brynrefail – Mae'r arolygwr ffyrdd wedi ymweld a'r safle a trefnu Gwaith adfer brys, mae'r lôn wedi cael asesiad hefyd am waith clytio yn yr hir dymor.

Arwyddion Dim Cŵn ar Fynwentydd – Derbyniwyd ymateb i'n llythyr oedd yn esbonio y broblem yn dilyn sawl cais dros y blynyddoedd ar hyn. Esboniwyd gan fod sawl teulu yn mynd a ci at

fedd a cael cysur o hyn, a chan nad oes is ddeddf i wahardd cŵn o'n mynwentydd gyda grym cyfreithiol a phwerau gorfodaeth, na dim polisi gan cyngor Gwynedd, ni ellir caniatu y cais.

Falcon Force – Derbyniwyd llythyr o ddiolch am y rhodd ariannol gan y tim. Gobeithio bydd newyddion o lwyddiant ymhellach ymlaen yn y mis.

Gohebiaeth a materion eraill

LLythyr ynglyn a Sedd i Cysgodfan Bws Dinorwig – Derbyniwyd llythyr gan Andy a Caroline Wigley yn datgan eu bod yn awyddus i roi sedd capel sydd wedi ei atgyweirio o'r newydd yn cysgodfan bws Dinorwig. Dywedwyd efallai y buasai yn rhaid cael cais cynllunio ac efallai byddai problem fandaliaeth, a gan mai y Cyngor Sir sydd yn berchen y Gysgodfan Bws, bydd yn rhaid cael caniatad hefyd. Penderfynwyd ysgrifennu a gyrru y cais ymlaen i'r cyngor Sir a disgwyl am ymateb, gan yrru llythyr yn ôl i Caroline ac Andy Wigley yn esbonio'r sefyllfa.

Apêl Cais 2 Gysgodfan Bws ym Methel - Darllenwyd cais gan Sion Jones am ddau gysgodfan bws o'r newydd ym Methel. Dywedwyd fod cais wedi cael ei wmeud yn barod am gysgodfan yn Rhiwlas. Nid oes cysgodfan o gwbl yn Rhiwlas. Nid yw'r cyngor sir yn gosod ond rhyw 2 bob 10 mlynedd. Y cler i gysylltu yn gofyn os yw Rhiwlas yn agos i dderbyn gan y cyngor Sir, a cael amcanbris am gysgodfan.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Hen Lyfrgell Deiniolen, -Codi Ty deulawr, a rhodfa mynedfa newydd.

11 Bro Rhos – Estyniad deulawr i gefn yr eiddo .

Tir Ger Bro Rhiwen – 5 Ty Fforddiadwy ar gyfer angen lleol , ynghyd a mynedfeydd cysylltiedig a pharcio.

Gilfach Ddu– Codi adeilad arddangos

Plas y Rhiw, Clwt y Bont – Estyniad Unllawr yn nhy blaen yr eiddo Fferm Coch Hir, Penisarwaun – Estyniad Unllawr ac estyniad dau lawr ynghyd a newidiadau i'r ty presennol

Awdit - Cymeradwywyd y ffurflen flynyddol

Gwmpas y Bwrdd

Rhiwlas – Llwybr Cyhoeddus Rhif 69 wedi gorlifo

Brynrefail – Dywedodd Hefin Williams nad yw'r cysgodfan bws byth wedi ei atgyweirio – Clerc i gysylltu eto

King Arthur Penisarwaun – Er fod Gwynedd wedi gaddo llinellau dwbwl, nid ydynt wedi eu gosod. Y cler i gysylltu yn gofyn beth yw'r oedi.

Ysbyty Gwynedd – Pryder fod uned arennau am eu symyd i'r Dwyrain. Dywedwyd bod yn bryder o unrhyw wasanaeth neu adran driniaeth sydd yn cael ei symyd. Y cler i lythyrru yn datgan pryder am symyd y gwasaneuthau hyn.

Llyfrgell Deiniolen – Ansicrwydd ynglyn a'r drefn o'r gwasanaeth newydd, Y cler i gysylltu a Nia Griffith yn llyfrgell Caernarfon.

Post yn garej Beran – Dywedwyd y bydd gwasanaeth Swyddfa Bost yn yn garej Beran o fewn ychydig wythnosau. Nid oes neb yn gwbod os yw hyn yn mynd i effeithio y gwasanaeth symudol i Ddeiniolen ar fore dydd Gwener.

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225



ADVANCED VEHICLE WORKSHOP Arbenigwyr mewn ceir VW, Audi, Seat, Skoda & Porsche

BOSCH Service

Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975.

Which? Trusted trader **01286 673559** **NOT TESTING STATION**

Car Service For everything your car needs.

Zone 2, Cibyn Ind Est, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

Diolchgarwch...

Anorfod sy'n orfod yw – yn y mēr
y mae er y dilyw,
astrus mewn byd o ddistryw
ein cred, ein dyled a Duw.

Norman Closs

John Tan y Graig, Fach Wen

(diwedd y 40'au a'r 50'au y ganrif ddiwethaf)

Nid oes neb yn awr yn cofio John
Tan y Graig – oedd bostman gwargam ein bro,
ei wisg las – nefi wedi llwydo bron
gan dywydd y rownd – milltiroedd eu tro.
Er mor wahanol ei ddiwyg a'i gam
yr hyn wir-erys mewn cof yw dydd Llun
Diolchgarwch; fo ar ei liniau nam
yn y Sêd Fawr'n sgwrsio â Duw ei hun ...
Cofiai gofio'n pedwar amser di-frys
a gadael y 'Cwbl a ddaw' i ddwylo'r lôr ...
Yna herciai i'w sedd, dan sychu chwys
gwibdaith y cyswllt â'r 'Rheolaidd Stôr' ...
Gwyddem, rhywfodd, pan eisteddai'i lawr
fod 'Bod Anweledig' yn rhannu'r awr.

Norman Closs

Un funud fach...

DIM GAIR O GYMRAEG

Be sy'n gwneud i Gymro da ddweud fod ganddo reswm cyfiawn dros beidio ag ysgrifennu na darllen na siarad Cymraeg byth mwy? Be wnaech chi â'r fath ddyn? Pa obaith fyddai i bapur bro na Radio Cymru nac S4C? Be ddeuai o fwriad llywodraeth i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg? O ran hynny, pa ddyfodol fyddai i'r iaith na'r genedl?

Ie, pa fath o ddyn fyddai'n dweud peth mor wirion? Pa fath o Gymro fyddai mor barod i ymwrthod â'i iaith? Mae'n ddigon digalon clywed Cymry Cymraeg yn sgwrsio â'i gilydd yn Saesneg. Dychmygwch eu clywed yn cyfiawnhau hynny gan fynnu bod ganddynt reswm da dros gefnu ar y Gymraeg am byth!

Ond rhag eich digalonni'n llwyr, dylem gofio y gall y rhan fwyaf ohonom ddweud pethau gwirion ar brydiau; rhywbeth nad oeddem yn ei olygu, neu rywbeth y byddem yn ddiweddarach yn difaru ei ddweud. Ac oherwydd hynny fedrwn ni ddim bod yn rhy lawdrwm ar William. Doedd o ddim yn bwriadu cefnu ar yr iaith. A wnaeth o ddim.

Wedi ei siomi oedd o, mae'n debyg. A phwy all ei feio? Y flwyddyn 1551 oedd hi, a William Salesbury newydd gyhoeddi Kynniver llith a ban, y llyfr cyntaf erioed i gynnwys darnau o'r Beibl yn Gymraeg. Yn ei awydd i weld yr Ysgrhythrau'n cael eu cyfieithu i'r Gymraeg roedd Salesbury'n disgwyl i esgobion ei ddydd hyrwyddo'r llyfr hwn er mwyn i bobl Cymru ddod yn gyfarwydd â geiriau'r Beibl yn eu hiaith eu hunain. Mae'n debyg na wnaeth yr esgobion ddim o'r fath, a bod hynny'n ddigon naturiol wedi peri siom a loes i Salesbury.

Daeth tro ar fyd, ac erbyn 1561 roedd yr esgobion yn gorchymyn darllen yr Ysgrhythur yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg yng ngwasanaethau'r Eglwys. Dim ond y rhannau o'r Beibl a gyfieithwyd yn llyfr Salesbury oedd ar gael. Ond ddwy flynedd yn ddiweddarach, cafwyd yn 1563 ddeddf seneddol a oedd yn gorchymyn cyfieithu'r Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Beibl cyfan i'r Gymraeg erbyn Mawrth 1, 1567. Cydiodd Salesbury yn y dasg; ac er na chyflawnwyd gofynion y ddeddf yn llawn, fe gyhoeddwyd y Llyfr Gweddi Gyffredin ym mis Mai 1567 a'r Testament Newydd ym mis Hydref yr un flwyddyn. Mae'n debyg mai Salesbury a gyfieithodd y Llyfr Gweddi, a fo yn sicr a gyfieithodd y cyfan bron o'r Testament Newydd.

Bu raid aros tan 1588 i gael y Beibl cyfan yn Gymraeg. Oherwydd y clod a roddwyd i'r Esgob William Morgan am y gwaith hwnnw mae cyfraniad Salesbury wedi ei anghofio i raddau helaeth. Ac mae hynny'n drueni mawr, yn arbennig o gofio mai diwygio Testament Newydd Salesbury a wnaeth William Morgan yn hytrach na'i gyfieithu o'r newydd ei hun.

Yr oedd cyhoeddi Testament Newydd Salesbury 450 o flynyddoedd yn ôl yn gamp aruthrol ac yn garreg filltir holl bwysig yn hanes y Ffydd Gristnogol yn ein gwlad. Bu cyfieithiad Salesbury o'r golwg i bob pwrpas ers cyhoeddi Beibl William Morgan. Ond nid bellach. Oherwydd os trowch i apBeibl ar eich ffôn neu dabled mi fedrwnch erbyn hyn ddarllen Testament Newydd 1567. Ac er mawr ryfeddod, mae'n haws o lawer gwneud hynny nag y byddem wedi ei ddychmygu. Ac mae'r ffaith honno'n dweud llawer am ddawn Salesbury, y dyn oedd wedi bygwth peidio sgwennu'r un gair arall yn Gymraeg.

Be wnewch chi â dyn fel fo? Diolch i Dduw amdano.

JOHN PRITCHARD

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfa

Cafwyd cychwyn arbennig i'n tymor newydd ar Fedi'r 19eg pan ddaeth Yr Athro Angharad Price atom i drafod "Trysorau Cudd Caernarfon".

Ar ôl y cyflwyniad gan ein Cadeirydd, Geraint Jones, aeth Angharad ymlaen, trwy gymorth sgrin a lluniau i drafod y "trysorau" nad oedd yn "gudd" yma yn Nhref Caernarfon. Cafwyd sgwrs hynod o ddifyr a gwahanol ganddi yn ein tywys o un man i'r llall, gan sylwi ar y ffowntan ar y Maes, y Lee-Ho Floating Restaurant rhwng Pont yr Aber a'r Anglesey, y Parc Sglefrfrwrddio dros yr Aber, y Gysgodfa ddwy ochr a'i golygfeydd tuag at y Foryd a'r dref o'r naill ochr a'r llall. Yna crwydro i Clwt y Mawn, Pendist lle yr oedd y Stocs i gosbi trueiniaid y dre yn yr hen amser. Soniodd wedyn am yr Inner Relief Rd, - "Y ceunant deugain oed rhwng dwy ran y dref". Gorffennwyd y daith ar Ben Twt hill, mae gan yr Alban ei Ben Nevis a ninnau ein Ben Twthill, y gaer gyntaf a'i phanorama o fynydd a môr a toeau tref Caernarfon.

Tynnwyd y lluniau gan Richard Outram a'r gobaith yw cyhoeddi llyfryn ac App o'r teithiau i gyd ar ôl cwblhau yr ymchwil.

Diolchodd Geraint yn gynnes iawn i Angharad am agor ein llygaid. Roedd yr ymateb ar y diwedd yn brawf fod pawb wedi mwynhau ac am gyfrannu syniadau am leoliadau eraill "cudd" yng Nghaernarfon.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf yn Ystafell Gymunedol y Llyfrgell am 7.30 yr hwyr pan ddaw Karen Owen atom i drafod "7"! Beth am ddod draw, fe gewch groeso cynnes a sgwrs a phaned.

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5



Ar ben arall i'r lein

Dyma ni unwaith eto, y tymor ar y rhan fwyaf o'r dyfroedd ar ben. Wel, bron iawn gan ei bod yn bosib 'sgota'r Seiont o Bont-Rhythallt i Gaernarfon am eog gyda phluen yn unig, ond cofiwch mae'n rhaid rhoi be ddaw eich ffordd yn ôl i'r afon! Hefyd mae Llyn y Dywarchen ar gael hyd diwedd Tachwedd, a cewch, mae'n bosib mynd â dau y dydd adref i gael y badell ar waith, os yn 'sgotwrs da ydi hynna, wrth gwrs. Yr hen 'booby' sydd 'di bod yn bluen eithriadol o effeithiol eleni. Mae'n rhaid cyfeirio at y pleser mawr mae llawer yn gael drwy daflu pluen ar yr hen le yma, mae'r diolch am hyn i gyd i'w anelu at y criw bach sy'n gofalu am y ddeorfa, stocio a chynnal y cychod.

Dros nifer o flynyddoedd mae stoc o frithyll enfys wedi ei gyflenwi gan gwmni o'r Eglwys Newydd, ac mae safon y pysgod wedi bod yn ardderchog. Yn anffodus, hwn oedd y tymor olaf i weithredu gyda'r criw bach yma gan fod gwaeledd wedi dod â'r busnes i ben. Felly, o 2108 ymlaen, bydd y cyflenwi yn dod yn lleol o Ddeorfa Trawsfynydd. Yn ogystal â brithyll yr enfys o Feirion bydd brithyll brown o'n deorfa ein hunan yn cael eu stocio, pan fyddant o faint iawn, tua Awst nesaf gobeithio.

Rhyw bythefnos yn ôl cefais alwad ffôn gan un o'n aelodau yn gofyn imi drosglwyddo ei ddiolchiadau am safon y pysgota 'roedd wedi'i gael ar Dywarchen. Unwaith roedd o wedi deall sut i 'sgota'r lle, roedd wedi cael hwyl; arbennig arni a'r badell a phadelli rhai o'r teulu hefyd wedi bod yn sail llawer i brydyn blasus. 'Roedd yn awr yn teimlo yn llawer mwy hyderus â'r enwair a'i fwriad yw rhoi cynnig ar yr afonydd a'r eog yn ystod 2018. Mae sgwrs fach fel hyn yn eithriadol o dderbyniol, diolch yn fawr am gymryd yr amser i gysylltu.

Wrth daro golwg tros fy ysgwydd ar 2017, siomedig iawn oedd hi o Fawrth hyd ddiwedd Mehefin, ond wedyn fe ddaeth tro ar bethau a, dwi'n falch o ddweud, am y gorau. Mae Padarn yn prysur lanhau ac felly hefyd y Rhythallt a'r Seiont, er bod y draenogiaid i'w gweld yn ymledu eu tiriogaeth o'r llyn ar i lawr yr afon. Does yr un i mi glywed wedi ei ddal â genwair yn yr afon, ond mae yr hen ddyfrgwn yn cael gwledd, gydag olion eu lladdedigaethau i'w gweld ar lannau'r Marddwr a'r Finiog.

Be sydd wedi bod yn eithriadol yw'r nifer o frithyll môr sy'n rhedeg yr afon, cyfeiriais y mis diwethaf at rai o'r 'sgotwrs llwyddiannus, ond mae'r dal y parhau, a be sy'n galonogol iawn yw sut mae'r nifer o eogiaid yn cynyddu. Yn ystod 2016 dim ond tri ddaeth i'r

rhwyd, eleni mae o leiaf ugain, ac mae nifer fawr wedi manteisio ar y dŵr uchel i'w gwadnu hi am ddyfroedd dyfnion Padarn a diogelwch i fwrw grawn.

Yr eog trymaf eleni yw un hyfryd o dros 12 pwys i Malcolm Owen, Caernarfon. Felly mae Tarian W.J. Williams am yr eog trymaf am 2017 i weld ar ei ffordd i'r Dre. Ond drwy chwythu tipyn ar fy nghorn fy hun, mae o leiaf un tlws i'w weld yn dod i fro'r Eco - sef tarian J. Vyrnwy Evans am y gwyniedyn trymaf, a dyna fo ichi - mae ar ei ffordd yma i Fethel, gan y bŵm yn eithriadol o ffodus i gael un ar bluen o'r Finiog am 8 bwys. 'Lwc mwnci', medda rhai, ond dim fel yna mae hi yw fy ateb i: Na, 'sgotwr da dwi!! Ond mae un peth yn sicr dwi di ymarfer digon dros yn holl flynyddoedd. Mae lwc yn dod i'r rhai sy'n dal ati, meddai'r proffwydi!! Un arall sydd wedi dal ati ydi Dr. Robin Parry, Llanberis, gan iddo gael eog arall ar ddechrau Hydref o'r Marddwr. Mae'n ddrwg gennyf ond doedd o ddim digon mawr i gael tlws eleni - ond dal ati am 2018.

Mae'r gymdeithas unwaith eto yn ceisio perswadio Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud defnydd o Ddeorfa Crawia i ddeori peth o sil y torgoch fydd yn cael ei gasglu o Afon y Bala ymhen rhyw chwe wythnos. Dyfal donc ddaw â hi yn y diwedd, ond mae rhyw symudiad bach gan fod ychydig o'r grawn am gael ei drosglwyddo i Ysgol Dolbadarn, ble bydd y disgyblion gyda'r cyfrifoldeb o'i deori a'i rhyddhau i'r llyn. Diolch o galon i staff yr ysgol am ei cydweithrediad ac i Dr. Parry am drefnu'r fenter.

Mae wedi bod yn bleser rhoi'r ychydig nodiadau yma i lawr - gan fy mod o'r diwedd wedi gallu canolbwyntio ar sgota'n unig. Gyda'r trafferthion sydd wedi bod fel pla dros yr ardal ers nifer fawr o flynyddoedd yn awr tu cefn i ni. Mae'n rhaid gafael yn y cyfle o'r bysgodfa'n dod ati'i hun. Felly mae'n amser denu mwy, yn enwedig yr ifanc, i'r grefft a'r pleser fydd gyda hwy ar hyd eu hoes. Unwaith mae wedi gafael ynddoch chi, does dim dianc. Llawer mwy o bleser a thros fwy o amser na reidio beic, rhedeg neu ganwio! Felly os bydd galw, gadewch i mi wybod, gan y byddwn yn dechrau ar ychydig o ddyddiau fel cyflwyniad i 'sgota yn ystod 2018. Bydd mwy am hyn pan fydd pawb wedi rhoi eu pennau at ei gilydd. Dros beint efallai!!

Hwyl tan mis nesaf.

Huw Price Hughes.



Eog Dr. Robin Parry, Llanberis.

Sgerbwd un o'r draenogiaid ar y Finiog wedi ei ddal gan ddyfrgi - ych a fi!



Her 500

Yn gynharach yn y flwyddyn fe gawsom hanes Hugh a Fiona, a oedd wedi rhoi her i'w gilydd o gwblwlhau 500 milltir o rasys yn ystod y flwyddyn. Ar ôl dechrau aradeg, ac wedi cwblwlhau dim ond 47 o filltiroedd, bu salwch i Fiona ag anaf i Hugh, yn gweld y ddau yn methu cwblwlhau rasys am rhai wythnosau, a colli allan ar farathon Wrecsam a Manceinion.

Ond ers hynny, maent wedi bod yn brysur iawn. Meddai'r ddau 'mae'r rasys wedi mynd a ni ar hyd a lled Cymru ag ymhellach. Ryda ni wedi rhedeg i ben Wyddfa 3 gwaith, i dop Cadair Idris ag ar hyd Pen-y-Fan. Wedi rashio 3 tren, cwblwlhau bron 100 milltir o lwybrau arfordirol ym Mhen Llyn a'r Gower Ultras, rhedeg trwy coedwigoedd a dinasoedd, dros Bont Hafren i Loegr ag wedi rhedeg o Lerpwl i Manceinion. Mae y siwrna a'r profiad wedi bod yn emosiynol ond werth chweil gan ein bod wedi cael gweld golygfeydd anhygoel ag wedi cyfarfod pobl a rhedwyr arbenig ar ein taith.

Felly beth sydd ar ôl i'w gwblwlhau? Ar y funud mae'r ddau wedi rhedeg (ag ambell i gerdded) 410 o filltiroedd yr un. Mae cynlluniau yn ei lle i gwblwlhau 70 milltir arall yn ystod Hydref a Tachwedd, yn cynnwys Marathon Eryri, ag mi fydd hyn yn gadael y ddau hefo 20 milltir i gwblwlhau yn mis Rhagfyr... Mae'r Eco yn edrych mlaen i weld os bydd y daith drosodd cyn dolig.....

DECHRAUDAI'R TYMORIGLWB HOCIMERCHED CAERNARFON

Mae Clwb Hoci Merched Caernarfon wedi ennill eu dwy gêm gyntaf yn ail adran Cynghrair Hoci Merched Gogledd Cymru yn erbyn Porthmadog (2-1) a Bae Colwyn 2nds (8-0), yn eu gadael ar frig y tabl gyda 6 phwynt.

Cafwyd cystadleuaeth dda yn erbyn Porthmadog ar Fedi 30, gyda'r ddau dîm yn pwyso'n drwm yn yr hanner cyntaf. Gyda chydweithio da rhwng blaenwyr Caernarfon daeth y gôl gyntaf i Sioned Williams diolch i bêl dda o'r asgell dde gan Lois Welsh i ganol y cylch. Er i Gaernarfon ennill 6 cornel gosb, ni aeth y bel mewn i'r gôl. Ond daeth y gôl fuddugol i Ceri Welsh ar ddiwedd yr ail hanner yn dilyn cyfres o basio gwych yng nghanol cae gan Gwenno Gibbard, Manon (Jiws) Williams, Sioned Williams a Ceri Welsh. Galwyd Gwenno Gibbard yn Chwaraewr y Gêm yn haeddiannol am ei chwarae cryf a phasio tactegol yng nghanol cae.

Roedd hi'n gêm dra gwahanol i ferched Caernarfon ar Hydref 8 gartref yn erbyn Bae Colwyn 2il - tîm newydd i'r ail adran ar ôl dyrchafiad ar ddiwedd y tymor diwethaf, ond yn methu'r profiad hynny sydd gan ferched Caernarfon. A'r profiad yna ddangosodd gryfaf yn ystod y gêm er i Gaernarfon fod yn fyr o chwaraewyr gyda 9 yn erbyn eu 11 nhw! Daeth hatric i Ceri Welsh, dwy gôl i Sioned Williams, a gôl yr un i Manon (Jiws) Williams, Lois Welsh a Llinos Williams. Cafodd Natalie Meek ei henwi'n Chwaraewr y Gêm, canlyniad gwych ar gyfer ei 'début' gyda Chlwb Hoci Caernarfon!

Wedi canlyniadau siomedig y tymor diwethaf yn gadael Caernarfon ar waelod y tabl, mae'r clwb yn gobeithio am stori wahanol y tymor hwn. Gyda dros 60 o ferched ifanc yn dod i'r



ymarferion ieuenctid pob nos Fercher am 6.30, mae sawl un wedi dangos eu doniau gan symud o'r tîm ieuenctid i'r tîm hŷn. Dyfodol disgrair i'r clwb felly.

Y prawf nesaf fydd yn erbyn tîm 1af Prifysgol Bangor ar Hydref 21ain ym Mhlas Silyn, Penygroes.

Mae croeso i unrhyw un ymuno gyda'r clwb sy'n ymarfer pob nos Fercher ar gae-bob-tywydd Ysgol Brynrefail, Llanrug. Ieuenctid am 6.30, criw hŷn am 7.30.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â marged_3@hotmail.com 07796691515.

Llysgenhadon Ifanc Gwynedd 2017-18



Mae dros 90 disgybl wedi eu hethol led led Gwynedd i fod yn Lysgenhadon Ifanc Chwaraeon y flwyddyn. Cafodd y Llysgenhadon y cyfle i fynychu cwrs 2 ddiwrnod Arweinwyr Chwaraeon Lefel 2 yn ddiweddar a roedd sawl disgybl Brynrefail yn eu plith. Bydd y disgyblion yn defnyddio eu sgiliau newydd i arwain sesiynau chwaraeon yn eu cymunedau a clybiau lleol.

CLWB BOWLIO BETHEL

Cymerwyd cam pwysig ymlaen yn ddiweddar. Chwaraewyd eu gêm gystadleuol gyntaf, a diolch i Glwb y Ffôr am eu croeso a'u cefnogaeth. Edrychwn ymlaen rwan i'r cam nesaf o ymuno â chynghrair.

Marathon Eryri

Llysgenhadon Ifanc oedd yn gyfrifol am arwain a threfnu rasmus plant Marathon Eryri eleni. Diolch i bawb a fu'n cynorthwyo ar y diwrnod.

Gwyl Triathlon Gwynedd

Cafodd disgyblion Gwynedd y cyfle i fynychu Gweithdy Newydd Triathlon yn Harlech yn ddiweddar. Roedd Tim Chwaraeon am Oes wedi trefnu ar y cyd gyda Rhian (TriRox) gweithdy i ddatblygu sgiliau a gweithdrefnau triathlon a gosod cwrs i ddisgyblion gael y cyfle. Roedd yn diwrnod llwyddiannus gyda disgyblion Brynrefail wedi mwynhau y profiad.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Gwybodaeth yna
Information here

Ras Sion Corn Santa Race
Go for it...or walk it!
Ewch amdani neu ewch am dro

Clwb Rygbi Caernarfon Rugby Club
17/12/2017
+ Ras Plant / Kids Race

5k
Run through the Castle

Cychwyn / Start
Ras y plant - 11.30
Ras Hwyl 5k - 12.00

I gofrestru a fwy o fanylion
To register and for more details
www.gafael-llaw.co.uk

Holl elw yn mynd at elusen
All Proceeds to charity
ward dewi
alder hey
cllic sargent

Gafael Llaw
On cadi arion i guthugi plant o'r cancer
Raising money for children with cancer



Siân Gwenllïan
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth,
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Swyddfa Etholaeth,
8 Stryd y Castell, Caernarfon,
LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

NIET!NIET!

Na ni fydd y Fyddin Goch yn mynd draw i Rwsia ar gyfer rowndiau terfynol Cwpan y Byd. Fel sawl tro arall y gêm olaf fu'r maen tramgwydd, ac eto oherwydd blerwch ni'n hunain. Pam y taflu allan i Ashley Williams yn dynn yn y gornel? Hawdd ei gau i lawr. Yna canlyniad a welsom fwy nag unwaith gan yr arwr Cymreig yn lifrau Everton eleni. Colli'r bêl â'r canlyniad yn drychinebus. Ond, teg dweud mai'r llu o gemau cyfartal gartref – a ninnau ar y blaen ym mhob un – yw'r prif reswm nad ydym yn teithio i Rwsia. Ysgol ddrud yw ysgol profiad. Yr un elfen bositif yw y bydd nifer uchel o'r chwaraewyr yma ar gael ar gyfer Pencampwriaehau Ewrop a'r Byd nesaf. Cyfle hefyd i sêr ieuanc fagu profiad. Cawn gyfle i fesur hyn yn y dyfodol agos gan fod tîm dan 21 Cymru yn chwarae dwy gêm gystadleuol ar Nantporth mis Tachwedd.

Un datblygiad positif yw'r sefydlu y Gystadleuaeth Ewropeaidd ble bydd yr hen gemau 'cyfeillgar' yn troi'n gystadleuol gydag esgyn a disgyn i wahanol grwpiau yn y fantol. Dyma'r ffordd i ddatblygu chwaraewyr, a denu'r torfeydd. Gall hyfforddi a systemau ond mynd a chwaraewr i ryw safon. Yr un sy'n gallu meddwl ar ei draed tu allan i'r cynllunio yw'r un pwysig. Dyma ble roedd colli Gareth Bale yn dyngedfenol. Colli Joe Allen hefyd, ac mae perfformiadau Ramsey yn codi gris pan mae Bale yno i gydweithio. Bydd apwyntio rheolwr yn benodiad pwysig iawn. Ni welaf Osian Roberts – ffigwr allweddol – yn camu i'r brif swydd, ond gellid ei demtio i ddilyn Coleman os aiff hwnnw i arwain clwb. Ai Giggs yw'r ateb? Seren ddoe, arwr heddiw? Yr oed iawn? Wn i ddim, ond gobeithio y gellir dod i gytundeb i gadw partneriaeth Coleman/ Roberts ynghlwm. Dyma awydd y garfan bresennol mae'n ymddangos. Mae cyfnod cyffrous o'n blaenau. Cadwch y ffydd.

PÊL-DROED LLEOL

Fu fawr o gynnwrf yn ystod y mis gyda'r tywydd yn amharu ar rhai gemau. Daeth rhediad Llanrug yng Nghwpan Cymru i ben gan golli draw yng Nghoed Llai o 1-0. Ar hyn o bryd nid yw hogia Eithin Duon wedi colli gêm gynghrair er byddant yn siomedig gyda'r gêm gartref gyfartal yn erbyn Pwllheli. Yn sicr, mae mwy o gysondeb yn chwarae Llanrug eleni ac edrychwn am safle uchel yn y gynghrair ar ddiwedd y tymor.

Mae Llanberis un safle tu ôl i Lanrug ond wedi chwarae dwy gêm yn fwy. Bydd ennill eu gemau cartref yn bwysig iddynt fel nad ydynt yn colli momentwm yn gynnar yn y tymor.

Bydd Waunfawr yn siomedig gyda'u deg gêm gyntaf, gan ennill ond dwy gêm gynghrair. Dyna bron i hanner y gemau wedi mynd. Mae angen dipyn o gyffro'r gemau cwpan y llynedd yn fuan i wyrdroi y tymor.

Canlyniad y mis yn ddios oedd camp tîm hyn Merched Bethel o Gynghrair y Gogledd yn bwrw tîm Caernarfon o'r Gynghrair Genedlaethol allan o Gwpan Cymru gyda sgôr ryfeddol o 4-1. Cafwyd rhediad da y llynedd cyn i dîm profiadol Caerdydd eu bwrw allan. Yn sicr, bydd y canlyniad yma yn bluen nodweddol yng nghap y tîm rheoli newydd ym Methel. Bydd hefyd yn sbarduno y ddau dîm iau yng nghlwb Bethel. Canlyniad fel hyn sy'n denu chwaraewyr i fentro i glwb.

RHEDEG MYNYDD



Cyrhaeddodd y tymor ei ben-llanw yn Llanberis ganol fis Hydref pan gynhaliwyd Pencampwriaeth Prydain i Rasys Cyfnewid ar Fynydd. Bedair blynedd yn ôl y cynhaliwyd y rhain yma ddiwethaf, a hynny ar safle Glynrhonwy. Yr un oedd y drefn eto eleni, gyda 186 o dimau o bob rhan o Brydain (gan gynnwys un tîm o'r Iwerddon) yn cystadlu. Gyda 6 aelod i bob tîm roedd dros fil o redwyr allan ar y mynyddoedd yn ystod y dydd. A'r clwb lleol – Rhedwyr Eryri - oedd yn gyfrifol am y trefniadau. Dyma'r pedwerydd tro yn hanes y gystadleuaeth i'r Bencampwriaeth gael ei chynnal yn Llanberis; clod yn wir i drefniadau trylwyr y clwb lleol.

Llwyddiant digamsyniol i'r Clwb, ond llwyddiant hefyd i'w redwyr, gyda dau dim yn hawlio medalau efydd ac arian. Daeth y tîm dynion dros 50 oed yn ail yn eu categori, a dynion dros 40 oed yn drydydd. Ac yr oedd tîm y merched o fewn trwch blewyn i gipio'r fedal efydd hefyd, gan orffen yn bedwerydd ar y diwrnod.

Yn gynharach yn y mis roedd dau redwr lleol yn cynrychioli Cymru yn ras olaf Cyfres Pencampwriaeth Rasio Mynydd yn Smarna Gora, Slovenia, gyda pherfformiadau arbennig o dda gan Rob Samuel, Llanberis (14eg yn ras y dynion) a Bronwen Jenkinson, Waunfawr (Sed yn ras y merched).

Am y tro cyntaf, cynhaliwyd Ras Elidir ar ddiwrnod Gwyl Ffair Nant, a mentrodd rhyw bump ar hugain o redwyr i fyny'r llethrau serth i'r copa cyn disgyn i Fwlch y Breacan a dilyn y grib uwch Cwm Dudodyn yn ôl i'r pentref. Mathew Roberts, Llanberis oedd yr enillydd, ond aeth gwobrau hefyd i Phil Jones, Waunfawr (dros 60 oed), Ali Thomas, Llanberis (dros 50 oed) a Maggie Oliver, Dinorwig (dros 60 oed). Mawr obeithio y bydd y bartneriaeth yn denu mwy o redwyr ac ymwelwyr i'r Wyl y flwyddyn nesaf.

Yn draddodiadol, Ras Penmaenmawr yw'r ras fynydd olaf yn yr ardal am eleni, a hynny ganol fis Tachwedd. Siawns na fydd enillwyr lleol yno hefyd.

Cystadleuaeth Caiacio – Llanberis



Cafodd Ceufadwyr Brynrefail ddiwrnod llwyddiannus iawn yng nghystadleuaeth caiacio ysgolion Gwynedd yn ystod y mis ar Lyn Padarn Llanberis.



Canlyniadau: Merched 7a8 – 1af, Bechgyn 7a8 – 1af, Merched 9a10- 2il, Bechgyn 9a10 – 2il – Da iawn Chi. Diolch i ddisgybl Rhodri Slaven am ei waith gwirfoddol yn cadw disgyblion yn saff ar y llyn trwy'r dydd.

Chwaraeon

Sgio Ysgol Brynrefail

Dyma ganlyniadau disgyblion Ysgol Brynrefail ym Mhencampwriaeth Sgio Ysgolion Cymru gynhaliwyd ddydd Sul, 8fed Hydref yng Ngwersyll Yr Urdd Llangrannog.

Genethod

Yn cystadlu yr oedd Alys Chisholm (BL10), Heledd Swyn (BL 10), Molly Chisholm (BL8), Eirwen Howorth (BL7) a Mared Evans (BL 7)

Dan 12oed – 1af Eirwen Howorth (BL 7)

Dan 14oed – 1af Molly Chisholm (BL 8)

Dan 16oed – 2il Alys Chisholm (BL10) ac hefyd yn 2il dros yr holl enethod

Tîm Genethod Ysgol Brynrefail yn 6ed sef Alys Chisholm, Heledd Swyn, Molly Chisholm ac Eirwen Howarth.

Y 6 tîm a ddaeth i'r brig heddiw yn cael mynd ymlaen i Pontypwl ym mis Tachwedd i Bencampwriaeth Sgio Ysgolion Prydain 2017.

Mi fydd gan Cymru 6 tîm yn cystadlu yno, 12 o Loegr a 7 o'r Alban.

Bechgyn

Yn cystadlu roedd Osian Evans (BL 13), Gwion Rhys Evans (BL11) a Ben Davies (BL 10).

Dim llwyddiant i'r bechgyn eleni. Dyma'r tro cyntaf i Ben gystadlu.



Hanner Marathon Caerdydd



Dyma ras sydd wedi hen ennill ei phlwy erbyn hyn ac yn cael ei dangos yn fyw ar y teledu. Mentrodd nifer o Fro'r Eco draw i'r brifddinas. Yn eu plith roedd tri o Fethel, y tri yn mentro am y tro cyntaf. Mae'n siwr fod tipyn o falchder teuluol yn y fantol wrth i'r brawd a chwaer Iwan Morris a Delyth Gwyn herio ei gilydd. Dyma brawf os oedd y rhediadau cyson gyda Clwb Rhedeg Bethel wedi eu paratoi. Bydd y ddau yn fodlon iawn â'u perfformiad. Y tro yma Delyth ennillodd y frwydr deuluol mewn amser o 1a54m20e. Wn i ddim os rhedeg allan o wynt neu syllu gormod ar y golygfeydd wnaeth Iwan ond bydd yntau'n fodlon gyda'i amser o 2a50m1e. Y trydydd i redeg oedd Gethin Griffith. A fuasai rhythm ei redeg gystal a'i rhythm dawnus yn y byd cerddorol? Ei amser oedd 2a14m, felly y fedal aur i Delyth eleni. Rwyn siwr byddant yno eto y flwyddyn nesaf yn chwilio i guro'r amseroedd hyn. Fe dystia llawer o redwyr fod rhyw ysbryd gwych o gyd-gynnal a chyd-sbarduno yn bodoli yn yr achlysuron hyn.

Diwrnod Insport Anabledd Gwynedd – Caernarfon



Roedd Clwb Jiwdo Segontium yn rhan o ddiwrnod Insport yn ddiweddar ble daeth 13 o glybiau chwaraeon cynhwysol dan-do i Ganolfan Tennis Arfon i alluogi pawb o bob gallu gael cyfle i roi cynnig ar chwaraeon newydd. Daeth dros 160 o bobl i fwynhau y diwrnod a daeth llawer o blant a phobl ifanc ar y mat jiwdo! Diolch i Lysgenhadon Robin Whiteside Thomas ac Elain Williams am wirfoddoli ar y diwrnod.